ARMED FORCES COVENANT
LLUOEDD ARFOG CYFAMOD

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Cyfamod Lluoedd Arfog Llywodraeth Cymru Adroddiad Blynyddol 2018

Cyflwynir yn wirfoddol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol a Rheol Sefydlog 15.2 o’r Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# Llywodraeth Ei Mawrhydi

– a –

## Phawb sy'n gwasanaethu neu wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog y Goron, a'u Teuluoedd.

Dyletswydd gyntaf y Llywodraeth yw amddiffyn y deyrnas. Mae ein Lluoedd Arfog yn cyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw ar ran y Llywodraeth, gan aberthu rhai rhyddidau sifiliaid, gan wynebu perygl ac, weithiau, yn dioddef anaf difrifol neu farwolaeth o ganlyniad i'w dyletswydd.

Mae gan deuluoedd rôl hanfodol hefyd wrth gefnogi effeithiolrwydd gweithredol ein Lluoedd Arfog. Yn gyfnewid am hyn, mae gan y genedl gyfan rwymedigaeth foesol i aelodau Gwasanaeth y Llynges, y Fyddin a'r Llu Awyr Brenhinol, ynghyd â'u teuluoedd.

Maent yn haeddu ein parch a'n cefnogaeth, a chael eu trin yn deg.

Ni ddylai'r rheiny sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, p'un ai yn y Lluoedd Rheolaidd neu'r Lluoedd Wrth Gefn, y rheiny sydd wedi gwasanaethu yn y gorffennol, a'u teuluoedd, wynebu unrhyw anfantais o gymharu â dinasyddion eraill o ran darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus a masnachol.

Mae ystyriaeth arbennig yn briodol mewn rhai achosion, yn enwedig ar gyfer y rheiny sydd wedi rhoi i'r eithaf, fel y rhai sydd wedi'u hanafu a'r rhai sy'n galaru.

Mae'r rhwymedigaeth hon yn cynnwys y gymdeithas gyfan:

mae'n cynnwys cyrff gwirfoddol ac elusennol, sefydliadau preifat, a gweithredoedd unigolion wrth gefnogi'r Lluoedd Arfog. Mae cydnabod y rheiny sydd wedi cyflawni dyletswydd filwrol yn uno'r wlad ac yn dangos gwerth eu cyfraniad.

Ni ellir mynegi hyn yn fwy nag wrth ategu'r Cyfamod hwn.

OGL WG37265 © Hawlfraint y Goron 2019 ISBN agraffau: 978-1-83876-370-1 ISBN digidol: 978-1-83876-369-5

# Cynnwys

03 Rhagair

05 Cyflwyniad

07 Sylwadau – gan aelodau o Grŵp Arbenigol y Lluoedd Arfog

10 Crynodeb Gweithredol

12 Crynodeb o Gyflawniadau

15 Llywodraethu

19 Iechyd a Lles

25 Addysg a Sgiliau

29 Tai

33 Buddion a Chyllid

37 Cymorth wrth Ddychwelyd i Fywyd Allan o'r Lluoedd Arfog

43 Cyflogaeth a Sgiliau

47 Coffáu

49 Beth fyddwn ni'n ei wneud

50 Gair i Gloi

# Rhagair

**Roedd 2018 yn flwyddyn arwyddocaol o ddigwyddiadau coffaol yn cydnabod ac yn anrhydeddu ein Lluoedd Arfog.**

Gwelsom benllanw canmlwyddiant diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf gyda nifer o ddigwyddiadau'n cael eu cynnal ledled Cymru a'r Deyrnas Unedig i nodi'r achlysur hanesyddol hwn.

Hefyd, fe wnaethom nodi canmlwyddiant ffurfio'r Llu Awyr Brenhinol, ac rwy'n falch fod gan Gymro, David Lloyd George, sef y Prif Weinidog ar y pryd, ran flaenllaw mewn dechrau'r Llu Awyr.

Dywedwyd ar y pryd mai'r Rhyfel Byd Cyntaf fyddai'r rhyfel i roi diwedd ar bob rhyfel, ond yr hyn sy'n drist, fel y gwyddom, yw nad felly y bu hi. Byddai effaith y gwrthdaro, nid yn unig ar y genhedlaeth a fu'n brwydro, ond hefyd y rheiny oedd gartref, yn para am genedlaethau i ddod.

Rhoesant eu bywydau nhw dros ein heddiw ni. Mae rhaglen Cofio Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod eu hanesion, eu haberthau a'u dioddefaint yn cael eu dweud, ac nad ydynt yn cael eu hanghofio.

Wrth gwrs, rhaid i ni gofio'r achosion niferus o wrthdaro a ddilynodd y Rhyfel Byd Cyntaf, lle bu dynion a menywod o Gymru yn gwasanaethu, gyda chefnogaeth eu teuluoedd. Rhaid i ni byth anghofio eu haberth.

Rwy'n rhoi teyrnged hefyd i'n dynion a'n menywod sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog ar hyn o bryd, a chyfraniad gwerthfawr eu teuluoedd. Maen nhw'n wynebu nifer o heriau personol o ganlyniad i natur eu gwaith yn amddiffyn rhyddid a diogelwch ein cenedl; maen nhw'n haeddu ein cefnogaeth.

Yn 2018, cynhaliwyd Diwrnod Cenedlaethol y Lluoedd Arfog yn Llandudno, a oedd yn llwyddiant mawr.

Roedd gan Lywodraeth Cymru ran mewn sicrhau bod y cyhoedd yn dod at ei gilydd i ddangos ein gwerthfawrogiad a'n diolchgarwch ar gyfer ein Milwyr sy'n Gwasanaethu, cyn-bersonél y Lluoedd Arfog a'n Milwyr Wrth Gefn.

> Wrth gwrs, rhaid i ni gofio'r achosion niferus o wrthdaro a ddilynodd y Rhyfel Byd Cyntaf, lle bu dynion a menywod o Gymru yn gwasanaethu, gyda chefnogaeth eu teuluoedd. Rhaid i ni byth anghofio eu haberth.

Gwnaed cynnydd aruthrol ledled Cymru wrth ddarparu gwasanaethau a chymorth ar gyfer ein cymuned Lluoedd Arfog, ac rydym yn gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn dyst i'r cynnydd hwnnw.

Fodd bynnag, gallwn ni wneud mwy, a byddwn ni'n gwneud mwy i sicrhau bod ein cymuned Lluoedd Arfog yn cael y gydnabyddiaeth, y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Rwy'n falch fod y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yng Nghymru yn parhau i hyrwyddo Cyfamod y Lluoedd Arfog.

Mae'r gwaith partneriaeth sylweddol sydd ar waith yn grymuso'r ethos y dylai pob un ohonom weithio gyda'n gilydd i gefnogi ac anrhydeddu cymuned y Lluoedd Arfog.

Mae gennym enghreifftiau da iawn yng Nghymru, gan gynnwys ein Llwybr Cyflogaeth, sy'n darparu gwybodaeth a chyngor ar sicrhau cyflogaeth, a Phecyn Cymorth Cyflogwyr, sy'n helpu cyflogwyr i gydnabod y doniau a'r sgiliau ymhlith ein cymuned Lluoedd Arfog.

Mae'r rhain yn enghreifftiau allweddol o'r hyn y gellir ei gyflawni wrth gydweithio er mwyn sicrhau buddion i'r ddwy ochr.

Hoffwn roi teyrnged i'r holl ddarparwyr gwasanaeth a gweithwyr proffesiynol ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat ac elusennol yng Nghymru sy'n cefnogi ein cymuned Lluoedd Arfog.

Fel Llywodraeth, rydym wedi ymrwymo o hyd i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth ar gyfer y gymuned hon, a byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth ar draws y sectorau hyn i sicrhau bod y gymuned hon yn cael y gefnogaeth honno.



**Julie James AC**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

> Fel Llywodraeth, rydym wedi ymrwymo o hyd i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth ar gyfer y gymuned hon, a byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth ar draws y sectorau hyn i sicrhau bod y gymuned hon yn cael y gefnogaeth honno.

# Cyflwyniad

**Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod dychwelyd i fywyd bob dydd i rai personél y Lluoedd Arfog yn gallu bod yn anodd am nifer o resymau.**

O’r herwydd, pan gyflwynwyd Cyfamod y Lluoedd Arfog yn 2011, cytunodd Llywodraeth Cymru â’r egwyddorion i roi i bersonél y Lluoedd Arfog, cyn-filwyr a’u teuluoedd, y cymorth sydd ei angen arnynt, a sicrhau nad ydynt dan anfantais o gymharu â dinasyddion eraill wrth ddarparu gwasanaethau i gydnabod yr aberthau y maent wedi eu gwneud.

I ymateb i Gyfamod y Lluoedd Arfog, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ein Pecyn Cymorth ar gyfer cymuned y Lluoedd Arfog, sy’n amlinellu’r gwasanaethau sydd ar gael, ac yn cyfeirio at gymorth gan sefydliadau eraill yn ogystal.

Yn 2016, yn dilyn cynnydd o ran cyflwyno gwasanaethau a chymorth ychwanegol, fe wnaethom adolygu ein Pecyn Cymorth a chyhoeddi ein dogfen Croeso i Gymru ar gyfer Personél y Lluoedd Arfog a’u teuluoedd sy’n cael eu hanfon i fyw yng Nghymru.

Bu gwaith Grŵp Arbenigol y Lluoedd Arfog wrth wraidd hyn. Mae’r grŵp, sy’n unigryw i Gymru, yn darparu llais a phlatfform ar y cyd i nodi a chyflwyno gwasanaethau ar gyfer y gymuned hon.

Gwnaed cynnydd aruthrol dros y blynyddoedd diwethaf. Trwy weithio’n agos â Grŵp Arbenigol y Lluoedd Arfog, rydym wedi cyflawni yn unol â meysydd allweddol, gan gynnwys Llwybr Tai a Chod Arweiniad ar gyfer Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd. Mae hyn yn darparu cymorth cynnar i gyn-filwyr sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.

I gydnabod y gall plant aelodau o’r Lluoedd Arfog wynebu heriau penodol o ganlyniad i leoli, lansiwyd cronfa bwrpasol i ddarparu cymorth addysgol ychwanegol iddynt.

Mae’r rhain yn cynnwys ychydig o enghreifftiau yn unig o’r cynnydd a’r cymorth rydym wedi eu rhoi ar waith.

I gryfhau’r cymorth rydym yn ei ddarparu, yn ystod misoedd y gaeaf, bu Llywodraeth Cymru yn cynnal Ymarfer Cwmpasu i nodi unrhyw fylchau wrth ddarparu gwasanaethau ar gyfer cyn-filwyr a’u teuluoedd.

“I gryfhau’r cymorth rydym yn ei ddarparu, yn ystod misoedd y gaeaf, bu Llywodraeth Cymru yn cynnal Ymarfer Cwmpasu i nodi unrhyw fylchau wrth ddarparu gwasanaethau ar gyfer cyn-filwyr a’u teuluoedd.”

Adroddwyd am ganfyddiadau o'r ymarfer hwn ac o brosiect Map Angen yn ddiweddar wrth Grŵp Arbenigol y Lluoedd Arfog, a bydd y canfyddiadau hyn yn cael eu hadlewyrchu wrth ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol.

Wrth symud ymlaen, ar y cyd â Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Bwrdd y Cyfamod a Chyn-filwyr Gweinidogol, byddwn yn rhoi'r Strategaeth Cyn-filwyr newydd ar waith, gan gydnabod y bydd y ffordd y caiff ei chyflwyno yn ymddangos yn wahanol ym mhob rhan o'r wlad.

Fodd bynnag, wrth gytuno i'r Strategaeth hon, mae pob rhan o'r Deyrnas Unedig wedi ymrwymo i gyflawni Gweledigaeth ac Egwyddorion ar y cyd, a'r deilliannau gorau i'n cyn-filwyr.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llwyr o hyd i ddarparu gwasanaethau a chymorth sy'n bodloni angen ein cymuned Lluoedd Arfog, a hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb sy'n darparu gwasanaethau a chymorth ar gyfer y gymuned hon, ac sydd wedi cyfrannu at yr adroddiad hwn.

Mae'n bleser gennyf gyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol hwn ar y cyd â Grŵp Arbenigol y Lluoedd Arfog.

Mae'n amlinellu cynnydd hyd yn hyn o ran cyflawni ein hymrwymiadau a'n hargymhellion ar gyfer meysydd i'w datblygu yn y dyfodol.



**Hannah Blythyn AC**
Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llwyr o hyd i ddarparu gwasanaethau a chymorth sy'n bodloni angen ein cymuned Lluoedd Arfog, a hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb sy'n darparu gwasanaethau a chymorth ar gyfer y gymuned hon, ac sydd wedi cyfrannu at yr adroddiad hwn.

# Sylwadau

## Gan aelodau o Grŵp Arbenigol y Lluoedd Arfog

**Mae aelodau'r Grŵp Arbenigol yn croesawu'r gwaith a wnaed i gydlynu grŵp arbenigol cymuned y Lluoedd Arfog o dan arweiniad y Llywodraeth, er mwyn sicrhau bod Cymru yn tynnu ynghyd y gwahanol asiantaethau a sectorau gyda'n Lluoedd Arfog i ganolbwyntio ar gyflawni ein hymrwymiadau ar y cyd o dan Gyfamod y Lluoedd Arfog.**

Mae'r Grŵp Arbenigol yn croesawu'n ddiffuant fod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno adroddiad blynyddol ar Gyfamod y Lluoedd Arfog.

Bydd yr adroddiad blynyddol hwn yn hanfodol i ddathlu cynnydd yn ogystal â nodi bylchau yng ngwasanaethau'r Llywodraeth ar gyfer cymuned y Lluoedd Arfog, gan gynnwys teuluoedd y Lluoedd Arfog.

Mae'r adroddiad blynyddol cyntaf cynhwysfawr hwn yn gwneud cyfiawnder â'r berthynas wych sydd rhwng cymdeithas Cymru a chymuned y Lluoedd Arfog, gan gynnwys Milwyr Wrth Gefn, yn enwedig y strwythur a roddir iddi gan Gyfamod y Lluoedd Arfog.

Mae'n cofnodi'r cynnydd mawr sydd wedi'i wneud a'r gwaith a fydd yn datblygu. Ceir llawer o dystiolaeth yn yr adroddiad am arferion cydweithio cadarnhaol rhwng sefydliadau sydd wedi'u datganoli, cyrff nad ydynt wedi'u datganoli, a sefydliadau yn y sector gwirfoddol.

Mewn perthynas ag Iechyd a Lles rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddyfodol GIG Cymru y Cyn-filwyr (VHNSW). Mae VHNSW wedi bod yn llwyddiannus iawn yn lleihau amseroedd aros i gleifion yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac rydym yn gobeithio gweld y duedd honno'n parhau.

Rydym yn cydnabod bod anghysondebau o hyd o ran rhoi Triniaeth â Blaenoriaeth y GIG ledled Cymru, a'r ffocws y bydd hyn yn ei roi ar wneud gwelliannau.

Mae aelodau'n falch bod pwysigrwydd addysg yn cael ei godi gydag ymrwymiad i newid y CYBLD i gydnabod plant y Lluoedd Arfog, mae hyn yn hollbwysig i dargedu'r cymorth a'r adnoddau sydd ar gael lle mae eu hangen.

Mae'r Gronfa Cynorthwyo Plant Milwyr yn Ysgolion Cymru yn cael ei chroesawu'n fawr. Dylid argymhell ystyriaeth o gyflwyno Premiwm Disgybl y Lluoedd Arfog yng Nghymru.

Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r 30 awr yr wythnos o ofal plant am ddim i rieni plant 3 a 4 oed sy'n gweithio, i bob Awdurdod Lleol wedi cael ei groesawu, a bydd o fantais i wŷr a gwragedd aelodau'r Lluoedd Arfog sy'n dymuno dychwelyd i'r gwaith.

Croesewir ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r Llwybr Tai. Cydnabyddir bod tai yn parhau i fod yn faes lle ceir tipyn o bwysau oherwydd bod prinder llety ag un ystafell wely, fel sydd ei angen ar rai o gyn-Bersonél y Lluoedd Arfog. Mae angen mynd i'r afael â hynny.

Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i adolygu'r Cod Canllawiau ar gyfer dyraniadau tai a digartrefedd i'w groesawu fel y mae cynnwys y Lluoedd Arfog yn ystod y cyfrif blynyddol o'r rheini sy'n cysgu ar y stryd, er y gallai gwaith i rannu'r wybodaeth hon gyda phartneriaid y trydydd sector gefnogi'r datblygiadau sydd eu hangen i wneud y cynnydd angenrheidiol.

Mae'r fframwaith i gefnogi newid cadarnhaol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a'r HMPPS yng Nghymru yn enghraifft wych o hyn, fel y mae SToMP.

Ceir corff o bolisi o'r radd flaenaf yng Nghymru sy'n rhoi cymorth i Bersonél sy'n gwasanaethu a'u teuluoedd, i Filwyr Wrth Gefn, i'r rhai sy'n gadael y gwasanaeth ac i Gyn-filwr.

Mae cefnogaeth wrth ddychwelyd i fywyd sifiliaid yn faes pwysig i ganolbwyntio arno.

Craffir ar yr effaith y mae Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog (AFLO) yn ei chael ar ddarparu gwasanaethau ac rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru iddynt.

Mae aelodau'r Grŵp Arbenigol yn croesawu ac yn cymeradwyo'r Pecyn Cymorth Llwybr Cyflogaeth a Chyflogwyr.

Prif "ofynion" y Grŵp Arbenigol yw'r pedwar phwynt a ganlyn:

» Triniaeth â Blaenoriaeth – sicrhau bod gwybodaeth a dealltwriaeth o hyn yn taro'r nod ar draws y sector (o safbwynt iechyd ond hefyd o safbwynt Cyn-filwyr).

» Cefnogi'r rhai sydd wedi rhoi'r mwyaf gan gynnwys diwallu anghenion Cyn-filwyr clwyfedig sy'n cael cymorth drwy gydol eu bywyd.

» AFLOs – maent yn adnodd gwych ac yn cael effaith – mae angen gweld hyn fel ffordd o fynd ati i feithrin dealltwriaeth well o'r Cyfamod ar draws Awdurdodau Lleol – maent wedi darparu offer a gwybodaeth ac mae angen eu hymwreiddio ledled Cymru.

» I diwygio CYBLD.

> Mae gennym y gallu i gyflawni pethau yng Nghymru ac mae Grŵp Arbenigol y Lluoedd Arfog yn helpu i gyflawni hyn. Rydym yn diolch i Lywodraeth Cymru am hwyluso'r gwaith i asiantaethau gydweithio i wneud gwelliannau.

# Crynodeb Gweithredol

## Cyflawni ar gyfer ein Cymuned Lluoedd Arfog

### Trosolwg

Hwn yw ein Hadroddiad Blynyddol ar Gyfamod y Lluoedd Arfog. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r cynnydd rydym ni wedi ei wneud yng Nghymru o ran darparu gwasanaethau a chymorth ar gyfer ein cymuned Lluoedd Arfog, ar y cyd â'n partneriaid allweddol. Gwnaed cynnydd da, fodd bynnag, rydym yn sylweddoli bod yna fwy i'w wneud, a byddwn ni'n gwneud mwy.

Bydd ein Hymarfer Cwmpasu i nodi unrhyw fylchau o ran cyflwyno gwasanaethau a phrosiect Map Angen, a gynhaliwyd yn ddiweddar gan Brifysgol Northumbria, yn helpu amlygu ble mae angen i ni ganolbwyntio ein hymdrechion wrth symud ymlaen. Bydd gweithio mewn partneriaeth â Grŵp Arbenigol y Lluoedd Arfog yn ein galluogi i ddarparu gwasanaethau a chymorth ar gyfer ein cymuned Lluoedd Arfog yn llwyddiannus.

## Uchafbwyntiau'r hyn rydym ni wedi ei wneud

### Iechyd a lles

Mae gwella iechyd meddwl a lles yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Rydym wedi parhau i ddarparu oddeutu £700,000 y flwyddyn ar gyfer Gwasanaeth GIG Cymru i Gyn-filwyr, sef gwasanaeth unigryw yng Nghymru i sicrhau bod cyn-filwyr â phroblemau iechyd meddwl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

Mae Gwasanaeth GIG Cymru i Gyn-filwyr wedi arwain ymchwil i Therapi Dadsensiteiddio ac Ailgydnerthu Cof Modiwlaidd a Gynorthwyir gan Symudiad, sy'n ymchwilio p'un a all y therapi 'realiti rhithwir' hwn leihau symptomau anhwylder straen wedi trawma (PTSD) ymhlith cyn-filwyr sydd ag ymwrthedd i'r driniaeth. Hefyd, rydym wedi darparu buddsoddiad iechyd meddwl newydd mewn mentrau i atal a lleihau hunanladdiad.

Rydym wedi cyhoeddi strategaeth draws-lywodraethol ar unigrwydd ac arwahanrwydd i ymgynghori yn ei chylch; mae cyn-filwyr wedi cael eu cynnwys yn y gwaith hwn. Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â'r Lleng Brydeinig Frenhinol a'r GIG i godi ymwybyddiaeth am Driniaeth â Blaenoriaeth ar gyfer cyn-filwyr sy'n cymhwyso ar gyfer hyn, ac wedi parhau i ariannu nofio am ddim ar gyfer y rheiny sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog a chyn-bersonél y Lluoedd Arfog, i ddarparu amgylchedd iddynt ddod at ei gilydd i gefnogi eu lles.

### Addysg

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr heriau penodol sy'n gallu wynebu plant personél y Lluoedd Arfog ac, o ganlyniad, lansiwyd cronfa bwrpasol o £250,000 yn 2018 i ddarparu cymorth addysgol ar gyfer y plant hyn. Galluogodd hyn 27 ysgol ledled Cymru i ariannu mentrau i gefnogi eu lles.

Rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ym mis Rhagfyr 2018. Mae hyn yn sicrhau darpariaeth ar gyfer fframwaith statudol newydd i gynorthwyo plant, gan gynnwys plant y Lluoedd Arfog, ag anghenion dysgu ychwanegol.

Rydym wedi darparu oddeutu £233,000 yn y flwyddyn academaidd 2017/18 trwy ein Cynllun Addysg Bellach ac Addysg Uwch, gan alluogi'r rheiny sy'n gadael y Lluoedd Arfog a chyn-filwyr ledled Cymru i elwa ar Addysg Bellach ac Addysg Uwch, gan wella eu hyder, eu haddysg a'u cyfleoedd cyflogaeth.

## Tai

Gwyddom y gallai rhai cyn-filwyr ei chael yn anodd sicrhau tai, ac fe wnaethom gyhoeddi Llwybr Tai (Housing Pathway) i ddarparu gwybodaeth ac opsiynau i fynd i'r afael ag anghenion tai y rheiny sy'n gadael y Lluoedd Arfog, cyn-filwyr, a'u teuluoedd. I ychwanegu at y Llwybr, lluniwyd cardiau a thaflenni cyngor ar gyfer cyn-bersonél y Lluoedd Arfog sydd, yn anffodus, yn cysgu allan, yn darparu gwybodaeth bwysig am gael mynediad at dai, yn ogystal ag amrywiaeth eang o wasanaethau eraill sydd ar gael.

Bu Llywodraeth Cymru yn gefnogol o'r bartneriaeth rhwng, Cymdeithas Tai Dewis Cyntaf a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wrth ddatblygu Tŷ Ryan, sef cynllun hunanadeiladu sy'n darparu cartrefi ar gyfer cyn-filwyr sy'n cymryd rhan yn y broses adeiladu, gan gaffael amrywiaeth o sgiliau a chymwysterau wrth wneud hynny.

## Cymorth ar ddychwelyd i Fywyd Bob Dydd

I gydnabod y gwaith gwerthfawr yr oedd Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog yn ei wneud i gefnogi cymuned y Lluoedd Arfog o fewn Awdurdodau Lleol ledled Cymru, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i gefnogi eu swyddi am ddwy flynedd arall, gyda phecyn cyllid £500,000.

Mae prosiect SToMP (Cefnogi Trosglwyddo Personél Milwrol – Supporting the Transition of Military Personnel) wedi rhoi ei Lwybr Cyn-filwyr ar waith mewn carchardai ledled Cymru.

Mae'r Llwybr yn cynnwys camau nodi, cofnodi a chyfeirio, gyda chyn-bersonél y Lluoedd Arfog yn cael eu trosglwyddo i unedau dynodedig ar gyfer cyn-bersonél y Lluoedd Arfog yng Ngharchar Ei Mawrhydi Parc a Charchar Ei Mawrhydi Berwyn.

Mae Cymru wedi elwa trwy sicrhau £2.14 miliwn o Gronfa Ymddiriedolaeth y Cyfamod ar gyfer prosiectau i gefnogi cymuned y Lluoedd Arfog, gan roi cyfle i ddarparu gwasanaethau a chymorth pwrpasol ychwanegol ar gyfer y gymuned hon.

## Cyflogaeth

Mae gan gyflogaeth rôl ganolog i drosglwyddo'n llwyddiannus i fywyd allan o'r Lluoedd Arfog, ac rydym yn cydnabod y gallai fod angen cymorth ychwanegol ar bobl sy'n gadael y Lluoedd Arfog a chyn-filwyr i sicrhau cyflogaeth. Trwy weithio gyda phartneriaid allweddol yn ystod 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Llwybr Cyflogaeth a Phecyn Cymorth Cyflogwyr.

Mae Llwybr Cyflogaeth yn darparu gwybodaeth ac eglurder ar opsiynau cyflogaeth sydd ar gael, tra bod y Pecyn Cymorth Cyflogwyr yn rhoi arweiniad clir i gyflogwyr ar fanteision ychwanegol cyflogi cyn-bersonél y Lluoedd Arfog.

## Coffáu

Mae gan Gymru hanes balch o draddodiad milwrol, ac rydym yn parhau i anrhydeddu'r gorffennol a'r presennol.

Yn 2018, roedd Llywodraeth Cymru yn falch o ddarparu £185,000 i gefnogi Diwrnod Cenedlaethol y Lluoedd Arfog yn Llandudno.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £271,000 i ymestyn rhaglen Cymru'n Cofio tan ddiwedd mis Mawrth 2020 i gynnwys coffadwriaethau'r Cadoediad a chreu gwaddol digidol.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth blynyddol ar gyfer Diwrnodau'r Lluoedd Arfog yng Nghymru hefyd.

# Crynodeb o Gyflawniadau

## Llywodraethu

- Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Fframwaith ar gyfer adrodd a chyfleu arfer da a materion yn ymwneud â chymuned y Lluoedd Arfog. Hefyd, rydym wedi sefydlu metrigau wrth gyflwyno gwasanaethau ar gyfer cyn-filwyr mewn iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau a phrostheteg.

## Iechyd a Lles

- Rydym wedi parhau i ddarparu oddeutu £700,000 y flwyddyn ar gyfer Gwasanaeth GIG Cymru i Gyn-filwyr sy'n cynnwys ymchwil i Ddadsensiteiddio ac Ailgydnerthu Cof Modiwlaidd a Gynorthwyir gan Symudiad.
- Rydym wedi trefnu bod £20 miliwn yn ychwanegol ar gael i Fyrddau Iechyd i wella'r holl wasanaethau iechyd meddwl, gan gynnwys y rheiny ar gyfer cyn-filwyr.
- Byddwn yn darparu £500,000 y flwyddyn yn ychwanegol i'w fuddsoddi mewn dulliau cenedlaethol a rhanbarthol penodol o fynd i'r afael ag atal hunanladdiadau a hunan-niweidio.
- Darparwyd gwasanaethau a chymorth i 308 o gyn-filwyr yn ystod 2016/17 i gael triniaeth ar ôl cael trafferthion â chamddefnyddio sylweddau.
- Rydym wedi ymrwymo i ariannu cynllun nofio am ddim ar gyfer personél y Lluoedd Arfog a chyn-filwyr tan 2021 i gynorthwyo eu hiechyd a'u lles.
- Rydym wedi darparu £40,000 ar gyfer Newid Cam i barhau â'u gwasanaeth mentora ar gyfer cyn-filwyr.
- Mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru wedi darparu £120,000 rhwng 2016 a 2018 i gefnogi Llwybr Carlam y Lluoedd Arfog sy'n galluogi personél y Lluoedd Arfog i ddychwelyd at eu dyletswydd yn gyflymach.
- Rydym wedi cyflwyno a lansio poster electronig a gynlluniwyd yn ddiweddar i'w argraffu a'i arddangos mewn meddygfeydd ac i atgoffa meddygon teulu am flaenoriaeth gofal iechyd y Cyfamod i gyn-filwyr.
- Rydym wedi gweithio gyda Hyrwyddwyr y Lluoedd Arfog ym mhob Bwrdd Iechyd Lleol i gefnogi a hyrwyddo gofal iechyd cyn-filwyr.
- Rydym wedi darparu oddeutu £930,000 o 2013 i gynorthwyo cyn-filwyr y mae angen aelodau prosthetig arnynt.

## Addysg

- Fe wnaethom gyflwyno Cronfa Cefnogi Plant Milwyr yng Nghymru yn 2018/19 i gefnogi lles plant aelodau o'r Lluoedd Arfog. Dyfarnwyd oddeutu £250,000 yn ystod 2018/19, a darparodd hyn gyllid llawn neu rannol ar gyfer 27 o gynigion llwyddiannus.
- Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, yn trefnu darpariaeth ar gyfer fframwaith statudol newydd i gynorthwyo plant, gan gynnwys plant aelodau o'r Lluoedd Arfog, sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).
- Rydym wedi darparu oddeutu £233,000 yn y flwyddyn academaidd 2017/18 trwy ein Cynllun Addysg Bellach ac Addysg Uwch i gynorthwyo'r rheiny sy'n gadael y Lluoedd Arfog a chyn-filwyr i ennill cymwysterau.
- Cyllid ar gyfer Prosiect Cynorthwyo Plant Milwyr mewn Addysg (SSCE) Cymru ar gyfer 2019.

## Tai

- Cyhoeddwyd Llwybr Tai sy'n rhoi gwybodaeth ac yn cyfeirio at gymorth, a'r opsiynau sydd ar gael i gyn-bersonél y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd.
- Cefnogwyd Tŷ Ryan sef cynllun hunanadeiladu sydd wedi'i dargedu at gyn-filwyr fel eu bod yn ennill sgiliau a chymwysterau yn ystod y cyfnod adeiladu. Mae'r cynllun hwn wedi darparu cartrefi ar gyfer cyn-filwyr a'u teuluoedd sydd wedi cymryd rhan yn yr adeiladu.
- Gweithio gyda Swyddog Cyswllt Lluoedd Arfog Gwent, mae Awdurdodau Lleol yn yr ardal wedi diwygio eu polisi tai i ystyried yr amser a wasanaethwyd yn y Lluoedd Arfog ar gyfer eu cynnwys ar restrau aros am dai.

## Buddion

- Yn 2017, fe wnaethom weithredu ar ymgyrch y Lleng Brydeinig Frenhinol 'Insult to Injury' i gyflwyno i diystyrwch llawn i holl daliadau digolledu'r Lluoedd Arfog wrth asesu anghenion gofal cymdeithasol.
- Bu Llywodraeth Cymru yn ariannu ymgyrch hyrwyddo ar fanteision meddu ar Gerdyn Braint y Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae'r cerdyn yn darparu gostyngiadau ar fanwerthu a hamdden a gellir ei ddefnyddio i elwa ar gynllun nofio am ddim yng Nghymru ar gyfer cyn-filwyr a'r rheiny sy'n aelodau o'r Lluoedd Arfog ar hyn o bryd.

## Cymorth ar ddychwelyd i Fywyd Allan o'r Lluoedd Arfog

- Rydym wedi cytuno ariannu Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog ledled Cymru am ddwy flynedd arall, gyda phecyn cyllid o £500,000.
- Wrth weithio gyda phartneriaid allweddol yn ystod 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Llwybr Cyflogaeth a Phecyn Cymorth Cyflogwyr.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cefnogaeth lawn i brosiect SToMP sy'n darparu Llwybr Cyn-filwyr mewn carchardai ledled Cymru, gan helpu cyn-filwyr i elwa ar gymorth ac adsefydlu cyn eu rhyddhau o'r carchar, ac ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r carchar.



# Sut rydym yn gweithio i gyflawni Cyfamod y Lluoedd Arfog yng Nghymru

**Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ategu egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog i sicrhau nad oes unrhyw aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog dan anfantais o ganlyniad i hynny, a bod ystyriaeth arbennig yn cael ei rhoi i'r rheiny sydd wedi rhoi i'r eithaf, megis y rheiny sydd wedi eu hanafu, neu'n galaru.**

Trwy weithio'n agos â'n partneriaid – y Weinyddiaeth Amddiffyn (MoD), y Tri-Gwasanaeth (Tri-Services), Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol, elusennau milwrol a sefydliadau sy'n cefnogi cymuned y Lluoedd Arfog – ein nod yw sicrhau bod gwasanaethau effeithlon ac effeithiol yn cael eu darparu, sy'n diwallu anghenion amrywiol y gymuned hon.

Rhoddodd Llywodraeth Cymru strwythurau ar waith i nodi materion allweddol a gweithredu, rhannu gwybodaeth ac arfer gorau, a sicrhau ein bod yn clywed lleisiau ar y cyd cymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru.

» Grŵp Arbenigol y Lluoedd Arfog – caiff ei gadeirio gan y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol gyda chefnogaeth Eiriolwr y Lluoedd Arfog yn Llywodraeth Cymru. Mae ei aelodau, sy'n cyfarfod bob dwy flynedd, yn darparu llais strategol ar ran cymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru, gan ystyried materion allweddol a dulliau ar y cyd o ddatrys y rhain.

» Mae Rhwydwaith y Lluoedd Arfog, sy'n cael ei gadeirio gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn ystyried materion o ddiddordeb lleol a rhanbarthol i gymuned y Lluoedd Arfog. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o Awdurdodau Lleol a sefydliadau eraill sydd â diddordeb yng nghymuned y Lluoedd Arfog. Trwy gynrychiolydd enwebedig, caiff materion a godir eu rhannu â Grŵp Arbenigol y Lluoedd Arfog.

» Fforymau'r Lluoedd Arfog yn Rhanbarthol ac mewn Awdurdodau Lleol – mae'r grwpiau hyn, a drefnir yn rhanbarthol ac ar lefel Awdurdod Lleol, yn dod â Llywodraeth Leol, asiantaethau iechyd, y fyddin, asiantaethau statudol ac elusennau'r Lluoedd Arfog, at ei gilydd i archwilio materion allweddol, nodi arfer gorau, cydlynu gwasanaethau ac amlygu meysydd i'w hystyried ymhellach ar lefel Cymru gyfan.

» Cofnodir materion lleol trwy Fforymau Lleol a phenodi Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog (AFLO) ledled Cymru, gan sicrhau bod canllawiau a gwasanaethau'r Cyfamod yn cael eu hymgorffori o fewn Awdurdodau Lleol. Mae Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog hefyd yn aelodau allweddol o Rwydwaith y Lluoedd Arfog a Fforymau'r Lluoedd Arfog yn Rhanbarthol ac mewn Awdurdodau Lleol.


Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cydnabod y gwerth mewn ymgysylltu'n eang â'n partneriaid a chymuned y Lluoedd Arfog. Mae ein Cynhadledd Cyfamod y Lluoedd Arfog, a gynhelir bob blwyddyn, yn denu cynulleidfa amrywiol o bob cwr o Gymru. Mae'n darparu cyfle i Hyrwyddwyr y Lluoedd Arfog mewn Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol, y Trydydd Sector, y Weinyddiaeth Amddiffyn, y Ffederasiynau Teuluoedd, yn ogystal â llawer o sefydliadau eraill sydd â diddordeb yn y Lluoedd Arfog, drafod mentrau newydd, rhannu arfer da ac ystyried cyfleoedd ar gyfer cydweithio pellach.

Mae mynychu cyfarfod elusennau Gwasanaeth Cymru gyfan yn galluogi i ni rannu gwybodaeth ac arfer da, a thrafod materion allweddol gyda sefydliadau sy'n cynorthwyo cyn-filwyr a'u teuluoedd.

Mae ein fframwaith ar gyfer rhannu arfer da, casglu safbwynt ledled Cymru a'r Deyrnas Unedig, ac ymgysylltu i nodi materion, wedi'i gofnodi yn y tabl isod:

Mae Gweinidog Llywodraeth Cymru sydd â chyfrifoldeb am gymuned y Lluoedd Arfog yn mynychu Bwrdd y Cyfamod a Chyn-filwyr Gweinidogol, ac mae uwch swyddog yn mynychu Grŵp Cyfeirio Lluoedd Arfog Llywodraeth y DU, i sicrhau bod arfer da a materion yn ymwneud â chymuned y Lluoedd Arfog yn cael eu rhannu.

Rydym yn gweithio gyda phartneriaid ledled y DU i sicrhau ein bod yn cydlynu polisïau, ond hefyd yn adlewyrchu'r gwahanol sefyllfaoedd ledled Cymru a rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.



## Gwella Data a Thystiolaeth

Rydym yn cydnabod nad oes gennym ddarlun cydlynus o'r niferoedd yng nghymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru. Fodd bynnag, mae Arolwg y Lleng Brydeinig Frenhinol o Gartrefi yn amcangyfrif bod oddeutu 385,000 o aelodau o'r gymuned hon yn byw yng Nghymru.

Rydym wedi cefnogi ymgyrch y Lleng Brydeinig Frenhinol ar gyfer cynnwys cwestiynau yng nghyfrifiad nesaf y DU yn 2021 ar Wasanaethu yn y Lluoedd Arfog.

Bydd hyn yn gwella gwybodaeth am faint cymuned y Lluoedd Arfog ar lefel leol a chenedlaethol, gan sicrhau bod adnoddau yn gallu cael eu targedu'n briodol.

Rydym yn parhau i weithio gyda Forces in Mind Trust, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgolion i sefydlu darlun mwy gwybodus o anghenion cymorth cymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru.

## Ymgysylltu – Clywed gan gyn-filwyr a theuluoedd

Fel rhan o'n Hymarfer Cwmpasu i amlygu bylchau mewn gwasanaethau ar gyfer cyn-filwyr a theuluoedd, rhwng mis Hydref 2018 a mis Chwefror 2019, fe wnaethom ymgysylltu â chyn-filwyr, teuluoedd a darparwyr cymorth i glywed am eu profiadau a'r hyn y maent yn eu dirnad fel bylchau mewn gwasanaethau, a sut gellir mynd i'r afael â nhw.

CYFLAWNIADAU

# YMGYSYLLTU

### CEFNDIR

Gyda nod i amlygu bylchau mewn darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer cyn-filwyr a'u teuluoedd yng Nghymru, fe wnaethom gynnal arolwg ar-lein a grwpiau ffocws wyneb yn wyneb ynglŷn â **7 thema allweddol**.

- System Cyfiawnder Troseddol
- Tai
- System Budd-aliadau a Lles
- Addysg
- Trosglwyddo i fywyd allan o'r fyddin
- Gofal iechyd
- Cyflogaeth

**1,007**


O gyn-filwyr, aelodau o deuluoedd a sefydliadau a gyflwynodd eu barn i'n Hymarfer Cwmpasu yn edrych ar fylchau mewn gwasanaethau ar gyfer cyn-filwyr a'u teuluoedd

**40**
Fe wnaethom fynychu 40 o grwpiau cymorth a chyfarfodydd â darparwyr i gasglu barn

**40+**
Fe wnaethom ymgysylltu â thros 40 o sefydliadau yng Nghymru

**250**
Cyfarfu 250 o gyn-filwyr mewn grwpiau cymorth ledled Cymru

### Y DADANSODDIAD





# Iechyd a Lles

**Gall rhai o bersonél y Lluoedd Arfog ddychwelyd o wrthdaro gydag anghenion gofal iechyd cymhleth, yn enwedig problemau iechyd meddwl, nad ydynt efallai'n ymddangos nes eu bod wedi gadael y Lluoedd Arfog. Rydym yn gweithio'n barhaus i sicrhau bod darpariaeth gofal iechyd yn diwallu anghenion y rheiny y mae angen cymorth a gwasanaethau arnynt.**

Mae gwella iechyd, iechyd meddwl, lles ac atal hunanladdiadau yn parhau i fod yn flaenoriaethau i Lywodraeth Cymru. Mae ein strategaeth iechyd meddwl, 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' wedi ymrwymo i barhau i gefnogi Gwasanaeth GIG Cymru i Gyn-filwyr. Byddwn yn targedu buddsoddiad iechyd meddwl newydd mewn mentrau i atal a gostwng cyfraddau hunanladdiadau yng Nghymru.

Mae Strategaeth Beth am Siarad â Fi? wedi arwain at ffocws cynyddol ar weithio amlasiantaethol i atal hunanladdiadau, gyda chynlluniau wedi eu sefydlu ym mhob cwr o Gymru.

Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan £500,000 yn ychwanegol y flwyddyn, i'w fuddsoddi mewn dulliau cenedlaethol a rhanbarthol o fynd i'r afael â hunanladdiadau, ac atal hunan-niweidio.

CYFLAWNIADAU

## IECHYD A LLES

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi **£685K** bob blwyddyn i Wasanaeth GIG Cymru i Gyn-filwyr

Gwariwyd **£927K** ers 2013 ar aelodau prosthetig er mwyn i gyn-filwyr y Lluoedd Arfog sydd wedi eu hanafu gael yr aelodau prosthetig angenrheidiol

Buddsoddwyd **£500K** y flwyddyn i fynd i'r afael ag atal hunanladdiadau a hunan-niwed

Cafodd **308** o gyn-filwyr gymorth gan wasanaethau camddefnyddio sylweddau ledled Cymru

**210** o geisiadau am driniaeth Llwybr Carlam i bersonél sydd wrthi'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog o 2014-2019

**£120K** Y swm rydym wedi ei wario i ddarparu gofal arbenigol y GIG ar gyfer personél y Lluoedd Arfog sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog ond na ellir eu lleoli ar hyn o bryd am resymau meddygol o 2016-2018

Gwariwyd **114** o geisiadau i'r Gronfa Glyw Cyn-filwyr yng Nghymru yn 2018

### GWASANAETH GIG CYMRU I GYN-FILWYR

**3,500** Nifer y cyfeiriadau y mae VHNSW wedi eu derbyn ers 2010

Bydd **50%** yn fwy o gyn-filwyr yn gallu elwa ar farn arbenigol a thriniaethau seicolegol ar ôl **£685K** gan Lywodraeth Cymru

Sicrhawyd **£500K** gan Help for Heroes hefyd, a taliwyd am 3 therapydd amser llawn ar gyfer cyn-filwyr am 15 mis arall

## Gwasanaeth GIG Cymru i Gyn-filwyr

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu oddeutu £700,000 bob blwyddyn i Wasanaeth GIG Cymru i Gyn-filwyr (VNHSW) gan alluogi'r gwasanaeth i ddarparu triniaeth yn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer cyflyrau iechyd meddwl yn gysylltiedig â'r Lluoedd Arfog.

Mae'r gwasanaeth – sef yr unig wasanaeth cenedlaethol sy'n cael ei gydlynu'n llawn yn y DU – yn cyflogi therapyddion ar draws yr holl Fyrddau Iechyd Lleol i ddarparu triniaeth a chymorth i wella iechyd meddwl a lles cyn-filwyr â phroblem iechyd meddwl yn gysylltiedig â'r Lluoedd Arfog.

Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod cyn-filwyr yn gallu elwa ar yr holl wasanaethau a allai fod eu hangen arnynt. Ers sefydlu'r gwasanaeth yn 2010, mae VNHSW wedi derbyn dros 3,500 o gyfeiriadau at y gwasanaeth.

**Tystiolaeth gan un o gleifion Gwasanaeth GIG Cymru i Gyn-filwyr:**

> Roeddwn i'n amharod i ofyn am gymorth gan unrhyw un ac yn meddwl pe bawn i'n dal ati, y byddai amser yn lleddfu'r broblem, ond ar ôl 13 mlynedd o osgoi fy symptomau PTSD, roedd yn waeth nag erioed. Mi wnes i wrando ar fy ngwraig yn y diwedd, i weld meddyg, neu 'dyna ni'.
>
> Roeddwn i'n teimlo'n gyfforddus gyda'm therapydd, wnaeth dargedu fy mhroblemau, a blaenoriaethu fy meddyliau cyntaf er mwyn bod yn fwy sefydlog. Roedd yn dda clywed nad oeddwn i ar fy mhen fy hun, a doedd dim rhaid i mi deimlo mor euog. Fe wnaeth cael safbwynt arall gan y therapydd fy helpu'n fawr. Rwy'n gwybod na fydd y PTSD yn gwella'n gyfan gwbl, ond fi sydd â rheolaeth ohono bellach, yn hytrach na bod gan y PTSD reolaeth ohonof i.
>
> Fe wnaeth fy therapydd i gyn-filwyr achub fy mywyd, ac mi fydda' i, fy ngwraig a'n dau fachgen bach bob amser yn ddiolchgar. Rhoddais gynnig ar therapi yn canolbwyntio ar drawma, ac achubodd hynny fy mywyd. Beth sydd gennych chi i'w golli?

Mae VNHSW, mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd, yn arwain ymchwil i Therapi 3MDR (Dadsensiteiddio ac Ailgydnerthu Cof Modiwlaidd a Gynorthwyir gan Symudiad), sy'n ymchwilio i b'un a yw therapi 'realiti rhithwir' gyda chymorth peiriant ymarfer corff (treadmill) yn gallu lleihau symptomau PTSD mewn cyn-filwyr sydd ag ymwrthedd i'r driniaeth. Mae 42 o gyn-filwyr yng Nghymru, sydd â PTSD ag ymwrthedd i'r driniaeth, yn cymryd rhan.

Bydd treial y gwaith ymchwil arloesol hwn yn gorffen trin cyn-filwyr yn ystod haf 2019. Bydd canlyniadau yn cael eu dadansoddi gan academyddion ym Mhrifysgol Caerdydd.

## Cynorthwyo cyn-filwyr sydd wedi colli coesau neu freichiau

Trwy ein buddsoddiad yn ein gwasanaeth iechyd, rydym wedi cynorthwyo cyn-filwyr sydd wedi colli coesau neu freichiau wrth wasanaethu yn y Lluoedd Arfog, i sicrhau bod ganddynt yr aelodau prosthetig sydd eu hangen arnynt i'w helpu i lwyddo yn eu bywydau yn y dyfodol. Rhwng mis Ebrill 2018 a mis Chwefror 2019, cytunodd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru i 18 cais am aelodau prosthetig ar gyfer cyn-filwyr rhyfel, am gost a amcangyfrifir yn £118,073.

Ers cyflwyno'r Polisi Cyn-filwyr Rhyfel ym mis Hydref 2013, hyd yma, mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru wedi cytuno ar gyllid ar gyfer 90 o geisiadau i ariannu dyfeisiau prosthetig ar gyfer cyn-filwyr rhyfel, gyda gwariant a amcangyfrifir yn £926,673. Mae hyn yn cynnwys dyfeisiau newydd, uwchraddiadau a llafnau arbenigol.

## Triniaeth Flaenoriaethol

Yn ystod 2017, bu Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Lleng Brydeinig Frenhinol i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth am egwyddor triniaeth flaenoriaethol ar gyfer cyn-filwyr ag anghenion iechyd.

Cyflwynwyd canllawiau newydd Llywodraeth Cymru ym mis Medi 2017, a roddodd fwy o wybodaeth i feddygon teulu, ymgynghorwyr, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a staff gweinyddol, am y broses i nodi, cofnodi, a chyfeirio cyn-filwyr sy'n gymwys am ofal iechyd blaenoriaethol.

Mae cydweithwyr o fewn byrddau iechyd unigol sydd â chyfrifoldeb am y Lluoedd Arfog yn gweithio i hyrwyddo ymwybyddiaeth am y polisi ar draws y GIG a'r gymuned ehangach. Ar y cyd â chydweithwyr y GIG, rydym wedi datblygu poster cenedlaethol i'w arddangos mewn meddygfeydd i godi ymwybyddiaeth ymhellach am y polisi, ac annog cyn-filwyr i hunan-nodi, fel bod staff meddygol yn ymwybodol o unrhyw gyflyrau yn gysylltiedig â'r Lluoedd Arfog. Bydd hyn yn cael ei hyrwyddo a'i ddatblygu trwy gydol 2019/20.

## Ffurflenni GMS – Nodi cymuned y Lluoedd Arfog

Ym mis Medi 2015, fe wnaethom ddiwygio'r ffurflen GMS i gynnwys cwestiynau ar wasanaeth milwrol er mwyn gallu nodi wrth gofrestru gyda meddygfa.

Rydym hefyd wedi sicrhau bod codau darllen safonol yn cael eu defnyddio ar gyfer cofnodi ar systemau gwybodaeth iechyd. Bydd hyn yn sicrhau bod cyn-filwyr yn cael eu hamlygu ac yn gallu cael triniaeth flaenoriaethol os yw eu cyflwr o ganlyniad i'w cyfnod o fewn y Lluoedd Arfog.

## Rhestrau aros y GIG

Yng Nghymru, rydym yn cydnabod yr amser a dreuliwyd ar restr aros y GIG mewn meysydd eraill.

Os bydd aelod o'r Lluoedd Arfog neu aelod o'i deulu agos ar restr aros y GIG a bod yr aelod yn cael ei anfon i ran arall o'r wlad, bydd unrhyw amseroedd aros a gronnir yn cael eu cario ymlaen gyda'r aelod o'r Lluoedd Arfog.

Mae'r holl Fyrddau Iechyd Lleol yng Nghymru yn ymwybodol o'r ymrwymiad hwn a dylent ei barchu.

## Llwybr Cyfeirio Carlam

Rydym yn cydnabod y gwaith gwerthfawr a wnaed trwy Lwybr Carlam y Weinyddiaeth Amddiffyn yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth, sy'n darparu gofal eilaidd ac arbenigol, yn blaenoriaethu mynediad at driniaethau ar gyfer personél y Lluoedd Arfog sy'n gwasanaethu ond yn cael eu graddio ar hyn o bryd fel 'aelodau na ellir eu lleoli am resymau meddygol'.

Rhwng mis Awst 2014 a mis Chwefror 2019, mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru wedi prosesu 210 o geisiadau ar gyfer rhoi triniaeth Llwybr Carlam i bersonél sy'n gwasanaethu. O 2016/18, amcangyfrifir mai cost y ddarpariaeth hon oedd £120,000.

## Nofio am ddim

Gall personél y Lluoedd Arfog fynd i nofio am ddim mewn pyllau nofio Awdurdodau Lleol ledled Cymru gan ddefnyddio eu Cerdyn Braint y Weinyddiaeth Amddiffyn. Lansiwyd y cynllun hwn yn 2015, ac mae Llywodraeth Cymru wedi ei ymestyn tan 2021. Cofnodwyd cyfanswm o 8,977 o nofio am ddim yn ystod 2017/18.

## Cronfa Glyw Cyn-filwyr

Mae'r Gronfa Glyw Cyn-filwyr yn rhoi cymorth i gyn-filwyr sydd wedi colli eu clyw yn ystod eu cyfnod yn y Lluoedd Arfog. Mae'n agored i'r rheiny sydd ag angen o ran lles na ellir ei fodloni trwy wasanaethau statudol (fel y GIG). Yn 2018, cafodd 114 o gyn-filwyr yng Nghymru gymorth trwy'r gronfa.

## Cymorth o ran Camddefnyddio Sylweddaur

Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed yw Cynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau Llywodraeth. Mae'n canolbwyntio ar les meddyliol a chorfforol ac yn ystyried camddefnyddio sylweddau hefyd.
Yng Nghymru, sefydlwyd Byrddau Cynllunio Ardal ym mhob ardal bwrdd iechyd. Mae'r byrddau yn gyfrifol am ddatblygu a rheoli gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. Yn ystod 2016/17, cafodd 308 o gyn-filwyr driniaeth a chymorth ledled Cymru.

## Therapïau seicolegol

Mae therapïau seicolegol, megis therapi ymddygiad gwybyddol a meddylgarwch, yn gallu helpu'r rheiny sy'n dioddef o PTSD. Rydym wedi ymrwymo i barhau i ddarparu therapïau seicolegol mewn gwasanaethau oedolion, ac o 2018, rydym wedi darparu £4 miliwn yn ychwanegol ar gyfer byrddau iechyd. Mae cynllun gweithredu cenedlaethol sy'n ystyried anghenion therapi ymddygiad gwybyddol y boblogaeth gyfan, gan gynnwys cyn-filwyr, yn cael ei roi ar waith ledled Cymru.

## Deintyddiaeth

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £1.3 miliwn yn ychwanegol drosodd a throsodd o 2017/18, a fydd yn helpu creu 10,000 o leoedd deintyddol newydd ar y GIG ledled Cymru, a bydd aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog yn elwa ar hyn.

**Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi comisiynu gwasanaethau deintyddol gofal sylfaenol ychwanegol ledled Gogledd Cymru, gan gynnwys y practis yn y Fali ar Ynys Môn. Er nad yw wedi'i anelu'n benodol at deuluoedd y Llu Awyr yn y Fali, mae'r teuluoedd wedi elwa ar y mynediad ychwanegol a ddarperir yn sgil y comisiynu.**

## Gamblo

Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r ymchwil a gynhelir gan Brifysgol Abertawe ar Astudiaeth Lluoedd Arfog y DU ar Iechyd a Gamblo ymhlith Cyn-filwyr i ymchwilio i'r agweddau tuag at gamblo ymhlith cymuned y Lluoedd Arfog, a phrofiadau o hyn.

Byddwn yn parhau i gefnogi'r gwaith pwysig hwn.

## Metrigau

Rydym wedi datblygu metrigau i ddarparu data a thystiolaeth glir yn ymwneud â chymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru, a'n perfformiad o ran diwallu'r angen hwnnw:

### Iechyd meddwl

**Tabl 1:**
Cyfeiriadau at Wasanaeth GIG Cymru i Gyn-filwyr sy'n cael asesiad a thriniaeth

| | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y cyfeiriadau | 191 | 205 | 329 | 390 | 542 | 607 | 633 |
| % y cyfeiriadau sy'n cael asesiad | | | | | 60-70 | 73 | 57 |
| % y cyfeiriadau sy'n cael triniaeth | | | | | 30-50 | 58 | 39 |

Ffynhonnell: **Adroddiadau Blynyddol Gwasanaeth GIG Cymru i Gyn-filwyr 2010-11 i 2017-18.**
www.veteranswales.co.uk/resources.html

## Aelodau Prosthetig

Mae Gweithgor Aelodau Prosthetig Milwrol Cymru Gyfan wedi cyfrifo amcangyfrifon ar sail data BLESMA. Nid oes unrhyw ddata yn benodol mewn perthynas â chyn-filwyr sydd ag aelodau prosthetig yng Nghymru. Fodd bynnag, mae Cymdeithas Cyn-filwyr Heb Aelodau Prydain (BLESMA) yn casglu data mewn perthynas â dynion a menywod Lluoedd Arfog Prydain sydd wedi colli coesau neu freichiau.

**Tabl 2:**
Nifer yr ymyriadau prosthetig, e.e. ceisiadau i'r panel prosthetig, gyda chymorth gan BLESMA rhwng 2015-2017

| | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|
| Nifer yr ymyriadau prosthetig[2] | 191 | 205 | 329 |
| Amcangyfrif o nifer y cyn-filwyr yng Nghymru sydd angen cymorth prosthetig[3] | 89 | | |

Ffynhonnell: **Adroddiadau Blynyddol a Strategol Ymddiriedolwyr BLESMA 2015 i 2017**
www.blesma.org/news-media/annual-report/

**Adroddiad Grŵp Ymgynghorol Aelodau Prosthetig Milwrol**
www.monmouthshire.gov.uk/app/uploads/2014/02/Report_of_the_Military_Prosthetics_Advisory_Group_-_2013_Version_1_October2.pdf

## Camddefnyddio sylweddau

Gellir gweld nifer y cyn-filwyr yng Nghymru sy'n derbyn, neu wedi derbyn, triniaeth ar gyfer camddefnyddio alcohol neu gyffuriau yn ystod 2014-15 yn y tabl isod.

Mae ffigurau 2018-19 yn ymwneud â'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2018 a mis Chwefror 2019 ac fe gawsant eu dethol ar 27/03/2019.

**Tabl 3:**
Nifer y cyn-filwyr yng Nghymru sy'n cael triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau rhwng 2014-15 a 2018-19

| | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 (Ebrill i Chwefror) |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y cyn-filwyr sy'n cael/wedi cael triniaeth ar gyfer camddefnyddio alcohol neu gyffuriau | 302 | 345 | 280 | 293 | 315 |

**Ffynhonnell: Is-adran Gwasanaethau Gwybodaeth (ISD) Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru**
www.wales.nhs.uk/informatics12

2. www.blesma.org/news-media/annual-report/
3. www.monmouthshire.gov.uk/app/uploads/2014/02/Report_of_the_Military_Prosthetics_Advisory_Group_-_2013_Version_1_October2.pdf



# Addysg a Sgiliau

**Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gallai'r rheiny sy'n gadael y Lluoedd Arfog a chyn-filwyr fod eisiau ehangu a datblygu eu sgiliau a enillwyd yn ystod eu cyfnod yn y Lluoedd Arfog.**

Hefyd, rydym yn cydnabod yr heriau a wynebir gan wŷr a gwragedd sy'n chwilio am swydd a phlant aelodau o'r Lluoedd Arfog mewn addysg yn sgil lleoli eu rhieni, a'r pwysau emosiynol y gall hyn ei achosi.

Rydym yn gweithio gyda Ffederasiynau Teuluoedd y Lluoedd Arfog a sefydliadau partner i ddeall hyn yn well, a chefnogi eu hanghenion wrth symud ymlaen.

CYFLAWNIADAU

## ADDYSG

Yn 2018/2019 darparwyd

**£249K**

o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo plant aelodau o'r Lluoedd Arfog



Fe wnaeth

**27**

o ysgolion elwa ar gyllid



**2,500**

o blant aelodau o'r Lluoedd Arfog yng Nghymru yn ôl Cyfrifiad diwethaf y DU



**46K**

Yn ystod blwyddyn ariannol 2017/18, cyfrannodd Llywodraeth Cymru y swm hwn at Gronfa Ysgoloriaeth Profedigaeth y Lluoedd Arfog



**Y WEINYDDIAETH AMDDIFFYN**

**£200K**

swm cyllid y Weinyddiaeth Amddiffyn yn 2018/19 sydd wedi cynorthwyo 14 o ysgolion/Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn eu gwaith gyda phlant aelodau o'r Lluoedd Arfog

**£1.6M**

Cyfanswm y cyllid gan y Weinyddiaeth Amddiffyn y mae Cymru wedi elwa arno i gynorthwyo plant aelodau o'r Lluoedd Arfog er 2011/12

## Cymorth Addysg i Blant Aelodau o'r Lluoedd Arfog

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarpariaeth deg mewn addysg i bob plentyn a pherson ifanc, ac yn cydnabod yr heriau penodol sy'n wynebu grwpiau penodol o ddysgwyr, gan gynnwys plant aelodau o'r Lluoedd Arfog. Fe wnaethom gyflwyno Cronfa Cefnogi Plant Milwyr yng Nghymru yn 2018/19 er mwyn cynnig cymorth addysgol i blant aelodau o'r Lluoedd Arfog. Dyfarnwyd £248,606 yn

ystod 2018/19, a darparodd hyn gyllid llawn neu rannol ar gyfer 27 o gynigion llwyddiannus o fis Medi 2018.

Yn dilyn cyhoeddiad yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn am ymestyn Cronfa Cefnogi Addysg y Weinyddiaeth Amddiffyn, mae 14 o ysgolion/Awdurdodau Lleol wedi llwyddo i sicrhau cyllid llawn neu rannol sy'n gwneud cyfanswm o £200,769 yn 2019.

Er 2011/12, mae prosiectau sy'n cefnogi plant aelodau o'r Lluoedd Arfog yng Nghymru wedi cael dros £1.5 miliwn o'r Gronfa Cefnogi Addysg.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ariannu Prosiect Cynorthwyo Plant Milwyr yn Ysgolion Cymru (SSCE). Mae SSCE Cymru yn darparu swyddog dynodedig i weithio gydag ysgolion, teuluoedd, Awdurdodau Lleol a sefydliadau partner ledled Cymru i wella cymorth ar gyfer plant aelodau o'r Lluoedd Arfog. Mae SSCE Cymru hefyd yn cynnal a chomisiynu ymchwil i brofiadau plant aelodau o'r Lluoedd Arfog mewn addysg. Bu gwaith ymchwil a gomisiynwyd ym mis Mehefin 2018 yn archwilio 'profiadau teuluoedd y Lluoedd Arfog sydd â phlant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) mewn addysg yng Nghymru'.

Bu'r ymchwil hefyd yn archwilio effeithiau posibl y Rhaglen Trawsnewid ADY newydd ar blant aelodau o'r Lluoedd Arfog sy'n byw yng Nghymru ac yn symud yma, ac mae'r ymchwil wedi cael ei hystyried yng nghyd-destun y rhaglen waith sydd ar y gweill i roi Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ar waith.

Mae gwaith yn parhau yng Nghymru i alluogi casglu data ar blant aelodau o'r Lluoedd Arfog mewn ysgolion trwy'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion.

Trwy gasglu data ar blant aelodau o'r Lluoedd Arfog, gellir dod i ddeall eu lefelau cyrhaeddiad a'u gofynion addysgol yn well er mwyn mynd i'r afael â'u hanghenion yn well.

## Cynllun Ymrwymiad i Addysg Bellach ac Addysg Uwch

Mae Cynllun Ymrwymiad i Addysg Bellach ac Addysg Uwch Cymru yn talu ffioedd dysgu pobl sy'n gadael y Lluoedd Arfog sy'n byw yng Nghymru pan fyddant yn astudio ar gyfer cymhwyster cyntaf llawn lefel 3, gradd israddedig gyntaf neu radd sylfaen, neu HNC neu HND cyntaf. Cyfrannodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o £232,464 yn ystod y flwyddyn ariannol academaidd 2017/18 tuag at y cynllun hwn, gan alluogi pobl sy'n gadael y Lluoedd Arfog ledled Cymru i elwa ar addysg bellach/uwch.

Yn ogystal â chymorth ar gyfer ffioedd dysgu trwy'r Cynllun Credydau Dysgu Uwch, mae cymorth ariannol ar wahân gan Lywodraeth Cymru tuag at gostau byw ar gyfer myfyrwyr sy'n dymuno astudio ar gyfer eu cymhwyster Addysg Uwch cyntaf. Mae hyn yn dibynnu ar incwm cartref, a ble maent yn penderfynu astudio.

## Cydnabod dysgu blaenorol

Mae Cynllun Credydau Dysgu'r Lluoedd Arfog yn helpu cefnogi datblygiad personol. Mae Credydau Dysgu Safonol (SLC) yn ariannu dysgu ar raddfa fach, tra bod Credydau Dysgu Uwch (ELC) wedi eu cynllunio i ddarparu cymorth tuag at gost ennill cymwysterau addysg bellach neu addysg uwch.

Yn ystod eu cyfnod yn y Lluoedd Arfog, efallai bydd rhaid i gyn-filwyr gofrestru ar gyfer, a defnyddio, ELC y gallant barhau i hawlio amdanynt hyd at 5 mlynedd o'u dyddiad gadael. Gall cyn-bersonél y Lluoedd Arfog a enlistiodd cyn 1 Ebrill 2011 ac sy'n gymwys, hawlio o hyd at 10 mlynedd ar ôl gadael y Lluoedd Arfog.

Mae Prifysgol De Cymru yng Nghaerdydd yn enghraifft o ddarparwr Addysg Uwch a fydd yn cynorthwyo cyn-filwyr i bennu nifer y credydau Addysg Uwch y maent wedi eu cronni, a'u helpu i benderfynu ar opsiynau ar gyfer gyrfa newydd.

Dyma enghreifftiau eraill o raglenni sydd wedi eu cynllunio i gefnogi cymuned y Lluoedd Arfog:

### Cynllun Ysgoloriaeth Profedigaeth y Lluoedd Arfog

Yng Nghymru, mae Cynllun Ysgoloriaeth Profedigaeth y Lluoedd Arfog yn cynnig cychwyn cadarn mewn bywyd i blant y rheiny sydd wedi marw wrth wasanaethu eu gwlad, trwy ddarparu ysgoloriaeth.

Ym mlwyddyn ariannol 2017/18, cyfrannodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o £45,925 i gynorthwyo myfyrwyr ar y cynllun hwn.

### Plant aelodau o'r Lluoedd Arfog a derbyn i ysgolion

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod y blynyddoedd cynnar yn 'gamau hanfodol' yn addysg plentyn, ac yn dosbarthu plant aelodau o'r Lluoedd Arfog â statws disgwyliedig. Mae hyn yn golygu bod y Cod Derbyniadau Ysgol yn trefnu darpariaeth i blant aelodau o'r Lluoedd Arfog gael eu derbyn i ddosbarth babanod ar ganol tymor, hyd yn oed os yw'n golygu y bydd y dosbarth yn torri cyfyngiad maint y dosbarth babanod.

Gellir neilltuo lleoedd i deuluoedd y Lluoedd Arfog cyn iddynt symud i'r ardal, ac i flaenoriaethu plant teuluoedd y Lluoedd Arfog yn y broses derbyniadau ysgol. Caiff y Cod ei adolygu'n barhaus i sicrhau nad yw teuluoedd y Lluoedd Arfog yn cael eu rhoi dan anfantais trwy ddehongli'r Cod.

### Rhaglen cadetiaid yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio â'r Gymdeithas Lluoedd Wrth Gefn a Chadetiaid (RFCA) i sicrhau bod ysgolion yn gallu dilyn rhaglen y Cadetiaid yng Nghymru. Mae rhaglen y Cadetiaid yn ffurfio rhan o'r gwasanaethau amrywiol i bobl ifanc yng Nghymru, ac mae ganddynt gyfraniad pwysig i'w wneud, gan helpu pobl ifanc i ddatblygu mewn llawer o ffyrdd, gan gynnwys magu hyder ynddyn nhw eu hunain, a datblygu sgiliau bywyd. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â Chyngor Ieuenctid a Chadetiaid y Weinyddiaeth Amddiffyn.

### Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, yn trefnu darpariaeth ar gyfer fframwaith statudol newydd i gynorthwyo plant, gan gynnwys plant aelodau o'r Lluoedd Arfog sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Disgwylir y bydd y system ADY newydd yn cael ei rhoi ar waith dros gyfnod o dair blynedd o fis Medi 2020, a bydd yn trefnu darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sydd angen cymorth ychwanegol â'u dysgu, gan gynnwys plant aelodau o'r Lluoedd Arfog.

Mae gwaith yn cael ei wneud ar God ADY newydd hefyd, a fydd yn cynnwys arweiniad penodol yn ymwneud â phlant aelodau o'r Lluoedd Arfog sydd ag ADY.

### Paratoi Ysgogol ar gyfer Hyfforddiant

Darparwr hyfforddiant sydd â 31 o leoliadau ledled y Deyrnas Unedig yw Coleg Paratoi Ysgogol ar gyfer Hyfforddiant (Motivational Preparation College for Training (MPCT)).

Mae'r MCPT yn canolbwyntio ar addysgu pobl ifanc rhwng 16 ac 19 oed trwy'r Rhaglen Dysgu Sylfaen. Gyda rhaglen gydnabyddedig unigryw mae'n cynorthwyo pobl ifanc i ddatblygu yn unol â'u Cenhadaeth, sef "Ymgysylltu, cymell ac addysgu i gyflawni rhagoriaeth i bawb".

Bu'r effaith yn broses gymorth gadarnhaol ar gyfer eu dysgwyr, yn eu galluogi i symud ymlaen i yrfa o'u dewis naill ai yn y fyddin, mewn addysg bellach neu gyflogaeth amser llawn. Y Lluoedd Arfog Prydeinig fu'r cymwynaswr mwyaf ar gyfer dilyniant.

Mae hyn wedi arwain at gyfraddau dilyniant o 82% yng ngholegau MPCT Cymru ar gyfer 2018, ac mae 39% o ddysgwyr yn symud i gyflogaeth, gan ddewis y Lluoedd Arfog Prydeinig fel eu dewis gyrfa. Parhaodd MPCT i addasu eu haddysgu a'u dysgu i ddiwallu anghenion amrywiol cyflogwyr.



# Tai

**Cydnabyddir bod cael llety addas fforddiadwy wrth adael y Lluoedd Arfog yn hanfodol ar gyfer trosglwyddo llwyddiannus.**

Wrth fynd ymlaen, byddwn yn parhau i ymdrechu i sicrhau bod y ddarpariaeth tai yn diwallu anghenion ein cymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru.

## Llwybr Tai

Mae'r Llwybr Tai Cenedlaethol ar gyfer Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog gan Lywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd yn 2016, yn amlinellu'r cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael i gyn-bersonél y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd yng Nghymru, fel eu bod yn gwybod beth yw'r dewisiadau sydd ar gael iddynt.

Mae hefyd yn rhoi gwybodaeth i weithwyr tai proffesiynol am yr amrywiaeth eang o gymorth sydd ar gael i gymuned y Lluoedd Arfog. Datblygwyd y Llwybr hwn ar y cyd â'n partneriaid, ac mae wedi cael cyhoeddusrwydd ymhlith cymuned y Lluoedd Arfog, Awdurdodau Lleol a chymdeithasau tai yng Nghymru.

I hyrwyddo'r Llwybr ymhellach, rydym wedi datblygu cardiau cyngor ynghyd â thaflenni a phosteri ar gyfer cyn-bersonél y Lluoedd Arfog sy'n cysgu allan. Mae'r cyhoeddiadau hyn yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer y Gwasanaeth Porth Cyn-filwyr – sef 'siop un stop' ddwy-ieithog ar gyfer cyn-filwyr ac aelodau o'u teuluoedd i elwa ar wasanaethau a chymorth mewn un lle.

## Angen Blaenoriaethol

Rhoddir blaenoriaeth i aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog os ydynt yn ddigartref pan fyddant yn gadael y lluoedd. Mae hyn yn cynnig diogelwch pwysig yn ystod cyfnod trosglwyddo.

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu asesiad o angen blaenoriaethol yng Nghymru i bennu a oes angen diwygiadau a fydd yn parhau i gefnogi ein nod i sicrhau bod cyn-filwyr yn gallu manteisio ar y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Bydd adroddiad am y gwerthusiad annibynnol ym mis Ebrill 2020.

## Cysgu Allan

Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu amcan i roi diwedd ar yr angen i unrhyw un gysgu allan, trwy sicrhau bod llety priodol a hygyrch ar gael. Yn 2015, cyflwynwyd ymarfer monitro blynyddol. Wrth gyfrif nifer y bobl sy'n cysgu allan bob blwyddyn, rydym yn awr yn gofyn y cwestiwn a yw rhywun wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog.

### ASTUDIAETH ACHOS

### Cynorthwyo cyn-filwyr ag anghenion llety

Wrth weithio gyda swyddog cyswllt Lluoedd Arfog Gwent, mae Awdurdodau Lleol yn yr ardal wedi diwygio eu polisi tai i ystyried y cyfnod a wasanaethwyd yn y Lluoedd Arfog o ran rhestrau aros am dai.

I helpu lleihau unrhyw anfantais a allai fod wedi cael ei hachosi yn sgil gwasanaethu yn y Lluoedd o ran rhestrau aros am dai, mae'r Awdurdodau Lleol yn ystyried y dyddiad pan ymunodd rhywun â'r Lluoedd fel y dyddiad y daw'r cofrestriad i rym ar y rhestr aros am dai.

Maent yn cymhwyso'r rheol hon i'r rheiny sy'n debygol o fod yn ddigartref pan gânt eu rhyddhau o'r Lluoedd; cyn-filwr sy'n gwneud cais i gael ei ailgartrefu o fewn 3 mis o gael ei ryddhau ac, mewn amgylchiadau esgusodol, lle bydd cyn-filwr yn gwneud cais i gael ei ailgartrefu y tu hwnt i 3 mis a hyd at 2 flynedd o'i ddyddiad rhyddhau a gall ddangos nad yw wedi gallu sefydlu llety sefydlog yn ystod y cyfnod hwn.

## Arweiniad ar gyfer Awdurdodau Lleol

O fewn y cod canllawiau, mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i Awdurdodau Lleol, wrth ystyried angen brys am dai, roi ffafriaeth resymol i unrhyw un sydd ag anaf difrifol, cyflwr meddygol, neu unrhyw nam, a gafodd unigolyn neu aelod o'i deulu o ganlyniad i wasanaethu yn y Lluoedd Arfog.

Cymorth Prynu – mae gan gyn-filwyr statws blaenoriaethol yng nghynllun Cymorth Prynu Llywodraeth Cymru. Mae gweddwon pobl sydd wedi cael eu lladd yn y Lluoedd Arfog hefyd yn gymwys ar gyfer y cynllun. Yn 2015, trefnwyd bod £2 miliwn ar gael i ddarparu tai ar gyfer pobl sy'n gadael y Lluoedd Arfog yng Nghymru ac fe'i neilltuwyd i Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Hyd yma, mae hyn wedi helpu wyth o bobl sydd wedi gadael y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd i ddod o hyd i lety addas.

**Mae Cymdeithas Tai Dewis Cyntaf mewn partneriaeth ag Awdurdod Lleol Wrecsam wedi helpu darparu tai ychwanegol i gyn-filwyr yng Ngogledd Cymru. Mae prosiect hunanadeiladu Wrecsam, Tŷ Ryan, a gwblhawyd yng Ngwanwyn 2018, wedi galluogi cyn-filwyr i gymryd rhan mewn adeiladu eu cartrefi eu hunain, gan gaffael amrywiaeth o sgiliau a chymwysterau wrth wneud hynny, a allai gynorthwyo eu cyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol.**

Hefyd yn Wrecsam, mae Tŷ Dewr yn cynnig 12 ystafell wely en-suite mewn adeilad o ansawdd da sydd wedi'i leoli mewn ardal dawel gyda mynediad hawdd at ganol y dref.

Caiff preswylwyr (ac aelodau o'r gymuned) ddefnyddio campfa 'Trim Track' sydd wedi'i hadeiladu ar y tir, a darperir cymorth ar gyfer y rheiny sy'n ei chael yn anodd ailafael mewn bywyd bob dydd, yn wynebu digartrefedd, neu salwch meddwl neu gorfforol.

Gall cyn-filwyr ddefnyddio hyfforddiant therapiwtig hefyd, ym mhrosiect Gardd Fictoraidd Erlas sydd â Wal o'i Chwmpas gerllaw.

## Clos Parc Morgannwg

Mae Clos Parc Morgannwg yng Nghaerdydd yn cynnwys 35 o gartrefi, gydag 18 o fflatiau, ac 17 o dai.

Neilltuwyd adran o Glos Parc Morgannwg fel clwstwr tai ar gyfer cyn-filwyr a'u teuluoedd, ac fe gawsant eu lletya fel rhan o fenter ar y cyd rhwng Cymdeithas Tai Taf a Phartneriaeth Cyn-filwyr Cymru (WVP).

Mae'r fenter yn rhan o Brosiect "Coming Home Project" WVP sy'n anelu at sicrhau bod cyn-filwyr a theuluoedd y Lluoedd Arfog yn cael cefnogaeth a chymorth llawn i gynorthwyo trosglwyddo esmwyth i fywyd bob dydd, a fydd yn eu galluogi i ffynnu a byw bywydau cynhyrchiol.

Datblygwyd y cynllun gan y Jehu Group ac fe'i cwblhawyd ym mis Hydref 2017 gyda Llywodraeth Cymru yn darparu dros £2.5 miliwn fel Grant Tai Cymdeithasol, tuag at gost y cynllun.

## Hafal

Mae Hafal, Cymorth Tenantiaeth Gofal Acíwt (ACTS), sydd wedi'i leoli yn Sir Ddinbych, yn brosiect sy'n darparu cymorth pan fo angen. Mae'n darparu cymorth yn gysylltiedig â thenantiaeth i unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau gofal eilaidd ac mewn perygl o golli eu tenantiaeth o ganlyniad i ail bwl o salwch meddwl. Caiff cyn-filwyr eu cynnwys yn eu sylfaen cleientiaid.

## ASTUDIAETH ACHOS

### Cartrefi i Gyn-filwyr Cymru

Wedi ei redeg gan yr elusen Alabare mae'n cynnig darpariaeth a chymorth tai dynoddig i gyn-filwyr yng Nghaerdydd, Pontypridd, Abertawe, Caerfyrddin a Chonwy. Mae gweithwyr allweddol yn gweithio gyda chyn-filwyr i ddarparu cymorth teilwredig, gan ymgysylltu â phartneriaid lleol, elusennau'r Lluoedd Arfog ac asiantaethau statudol i ddarparu cymorth cyfannol i ddiwallu anghenion unigol y cyn-filwr.

### Haig Housing

Mae Haig Housing yn darparu cymorth tai i gyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog a/neu eu dibynyddion. Mae'r ymddiriedolaeth yn gosod cartrefi anghenion cyffredinol am rentau fforddiadwy i gymuned cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog, ac yn darparu atebion tai teilwredig i weddu i anghenion unigol cyn-filwyr anabl ac sydd wedi eu hanafu'n ddifrifol.

Mae gan Haig Housing gartrefi yng Nghaerdydd ac Abertawe.





## Buddion a Chyllid

Mae Llywodraeth Cymru yn deall bod manteisio ar y buddion y mae gan y rheiny sy'n gadael y Lluoedd Arfog a chyn-filwyr hawl i'w cael yn gallu bod yn brofiad heriol, yn enwedig os oes dryswch ynglŷn â pha gymorth sydd ar gael.

Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid allweddol i sicrhau bod y broses mor hwylus ag y bo modd.

CYFLAWNIADAU

### BUDDION A CHYLLID

**Gostyngiad o**
**50%**
ar y dreth gyngor i bersonél y Lluoedd Arfog ar ail gartrefi

**2017**
Cafodd y Pensiwn Anabledd a'r Cynllun Iawndal y Lluoedd Arfog ei ddiystyru wrth asesu anghenion gofal cymdeithasol

**CLUDIANT**
Rhoddwyd
**659**
o Fathodynnau Glas i gyn-filwyr yng Nghymru o fis Rhagfyr 2018

**CERDYN BRAINT Y WEINYDDIAETH AMDDIFFYN**

yng Nghymru i sicrhau bod personél y Lluoedd Arfog sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd, a chyn-filwyr, yn ymwybodol o'r buddion a gynigir

**27,400**
o aelodau yng Nghymru hyd yma

**17,000**
o ddeiliaid cerdyn yng Nghymru

**TEITHIO AR FYSIAU AM DDIM**
hawl pàs bws rhatach i'r rheiny sy'n derbyn Cynllun Iawndal y Lluoedd Arfog

### Yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)

Mae'r DWP yng Nghymru wedi sicrhau bod darpariaethau ar waith ar gyfer cyn-filwyr, personél y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd sydd angen cyngor a chymorth.

Ledled Cymru, trefnwyd bod Hyrwyddwyr y Lluoedd Arfog ar gael i gynorthwyo aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd.

Mae Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog yn gweithio ym mhob un o swyddfeydd y Ganolfan Byd Gwaith. Mae'r Hyrwyddwyr yn gweithio'n agos â rhwydwaith gweithgar o Fannau Cyswllt Unigol y Lluoedd Arfog sydd ar waith ar holl safleoedd y Ganolfan Byd Gwaith ledled Cymru, gan helpu cymuned y Lluoedd Arfog i fanteisio ar fuddion, gwasanaethau cymorth, a dod o hyd i gyflogaeth.

Yng Nghymru, mae staff y DWP yn gweithio gyda phartneriaid allanol i archwilio'r modd y gallant gynorthwyo cyn-filwyr â PTSD difrifol i fanteisio ar eu gwasanaethau yn haws, ac mewn amgylchoedd mwy priodol, lle nad yw ymweliadau cartref yn bosibl.

Mae'r DWP wedi mynd ati i godi ymwybyddiaeth am Gyfamod y Lluoedd Arfog, yn allanol ymhlith cyflogwyr, ac yn fewnol ymhlith staff. Mae ymgynghorwyr cyflogwyr yn hyrwyddo'r Cyfamod ac yn annog cyflogwyr i ymuno.

Yn Ne Orllewin Cymru, cynhaliwyd ymarfer marchnata yn targedu pob cyflogwr ar eu cronfa ddata, gan arwain at 8 o gofrestriadau newydd. Mae staff DWP yn Wrecsam wedi cefnogi cwrs RBLI Lifeworks, gan gynnal ffug gyfweliadau cyflogaeth ar gyfer cyn-filwyr ar y cwrs.

**Ymunodd un o weithwyr y DWP, Nicola Peacock â Llu Cadetiaid y Fyddin (ACF) yn 2017 fel wirfoddolwr oedolyn. Mae hi bellach yn Sarjant, a bydd yn mynychu Westbury yng Ngorffennaf 2019 i gymryd rhan mewn asesiad Swyddog wedi'i gomisiynu. Mae Nicola wedi cael ei chefnogi gan y DWP i gymryd rhan mewn hyfforddiant a gwersylloedd, ac mae'n siarad yn rheolaidd â chydweithwyr am fanteision cymryd rhan mewn gweithgareddau cadetiaid i bobl ifanc.**

Tlodi tanwydd – Mae cyn-filwyr yn gymwys am Gynlluniau Rhwymedigaethau Cwmnïau Ynni i gynorthwyo mewn achosion o Dlodi Tanwydd. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried cymhwyster i Raglen Cartrefi Cynnes Llywodraeth Cymru a sut gellir cynorthwyo cyn-filwyr fel rhan o'r adolygiad polisi sy'n cael ei gynnal yn 2019.

## Cludiant

Mae gan gyn-filwyr sy'n derbyn budd-dal a ddarperir o dan Gynllun Iawndal y Lluoedd Arfog a'r Lluoedd wrth Gefn hawl i gael bathodyn glas. Yn sgil rheoliadau diweddar, estynnwyd y cymhwyster am fathodyn i gyn-filwyr â nam gwybyddol pan fyddant yn derbyn y dyfarniad budd-dal perthnasol.

Mae ffigurau hyd at fis Rhagfyr 2018 yn dangos bod 659 o Fathodynnau Glas wedi cael eu rhoi i gyn-filwyr yng Nghymru. Mae cyn-filwyr sydd wedi cael eu hanafu'n ddifrifol yn gymwys am docynnau rhatach i deithio ar fysiau.

Estynnodd Llywodraeth Cymru yr hawl i bàs bws rhatach yn 2011, yn benodol i'r rheiny sy'n derbyn Cynllun Iawndal y Lluoedd Arfog (AFCS).

Rhaid i'r rheiny nad ydynt yn derbyn tariffau 1-8 yr AFCS, neu sy'n 60 mlwydd oed neu'n hŷn, ddangos i'w Hawdurdod Lleol, sy'n gweinyddu'r cynllun, eu bod yn bodloni'r meini prawf cymhwyso eraill sydd wedi eu nodi mewn deddfwriaeth ac a fu'n berthnasol ers cyflwyno'r cynllun yn 2002.

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ostyngiad o 50% yn y dreth gyngor ar gyfer personél y Lluoedd Arfog ar ail gartrefi yn 2013.

## Diystyru'r Pensiwn Anabledd Rhyfel (WDP) a'r Cynllun Iawndal y Lluoedd Arfog

Er 2017, diystyrodd Llywodraeth Cymru y Pensiwn Anabledd Rhyfel yn llwyr wrth asesu anghenion gofal cymdeithasol.

O ganlyniad, fe wnaeth cyn-filwyr a gafodd eu heffeithio gan y newid hwn allu cadw gwerth llawn y Pensiwn Anabledd Rhyfel a'r Cynllun Iawndal y Lluoedd Arfog hwn i helpu talu eu costau byw bob dydd, ac yn dibynnu ar eu hamgylchiadau ariannol, gallent fod wedi gweld gostyngiad yn eu tâl am eu gofal (neu eu cyfraniad neu eu had-daliad am eu taliadau uniongyrchol) o ganlyniad i ddiystyru uwch o ran incwm a gymhwyswyd mewn asesiad ariannol.

## Cerdyn Braint y Weinyddiaeth Amddiffyn

Lansiwyd Ymgyrch ymwybyddiaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo manteision Cerdyn Braint y Weinyddiaeth Amddiffyn yng Nghymru, i sicrhau bod mwy o bersonél y Lluoedd Arfog a chyn-filwyr yn ymwybodol o'r buddion a gynigir. Mae'r rhain yn cynnwys gostyngiadau, ar-lein ac ar y stryd fawr, mewn manwerthu, hamdden a lleoliadau eraill.

Hyd yma, mae 27,400 o aelodau yng Nghymru, gydag ychydig dros 17,000 o ddeiliaid cerdyn.

## Y Cynnig Gofal Plant a ariennir gan y Llywodraeth

Mae Symud Cymru Ymlaen yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i ddarparu 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant wedi'u hariannu gan y llywodraeth ar gyfer rhieni plant tair a phedair blwydd oed sy'n gweithio, am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.

O fis Ebrill 2019, bydd y cynllun yn cael ei gyflwyno'n llawn ar draws yr holl Awdurdodau Lleol, a bydd teuluoedd aelodau a chyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog yn elwa arno.





# Cymorth wrth Ddychwelyd i Fywyd Allan o'r Lluoedd Arfog

CYFLAWNIADAU

## CYMORTH WRTH DDYCHWELYD I FYWYD ALLAN O'R FYDDIN

**3.5%**

Canran y rheiny yn y System Cyfiawnder Troseddol sy'n cyn-bersonél y Lluoedd Arfog

Yn 2019, darparodd Llywodraeth Cymru

**40K**

i CAIS er mwyn iddynt allu parhau i ddarparu mentoriaid cymheiriaid Change Step

### STоMP

### Cefnogi Trosglwyddo Personél Milwrol

Ei nod yw nodi cyn-bersonél y Lluoedd Arfog o fewn y System Cyfiawnder Troseddol

Cydweithio â'r 4 heddlu yng Nghymru

Sicrhawyd rhagor o gyllid i'w ymgorffori mewn meysydd polisi

### CEM Parc a Berwyn

- Mae Uned Endeavour yn galluogi gwasanaethau cymorth i helpu adsefydlu cyn-filwyr yn ystod eu dedfryd, ac ar ôl eu rhyddhau
- Mae Change Step yn cynnig gwasanaethau mentora cymheiriaid. Mae Hire a Hero yn cynnig cymorth cyflogadwyedd
- Mae gan CEM Berwyn adain debyg i gyn-filwyr sy'n dilyn model tebyg

## Strategaeth Unigrwydd ac Arwahanrwydd Cymdeithasol

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu dull traws-lywodraethol a thraws-sector o fynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd yng Nghymru. Wrth weithio gyda phartneriaid, byddwn yn sicrhau bod cyn-filwyr yn cael cyfle i ddefnyddio cyfleusterau a gwasanaethau o fewn eu cymunedau.

Mae ymgysylltu wedi cynnwys y sector cyhoeddus, elusennau a grwpiau cymorth i gyn-filwyr i ystyried ymchwil, tystiolaeth ac atal unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol.

Mae enghreifftiau o arfer da wrth gefnogi hyn yn cynnwys; Woody's Lodge, Newid Cam, Y Lleng Brydeinig Frenhinol, Cyn-filwyr y Cymoedd a'r Cymdeithasau Catrodol.

Rydym hefyd yn ymwybodol fod y mater yn effeithio nid yn unig ar gyn-filwyr hŷn ac yn parhau i weithio gyda grwpiau, gan gynnwys y rheiny a amlinellir uchod i hyrwyddo gwasanaethau lle gall cyn-filwyr o bob oedran ddod at ei gilydd ac ymgysylltu.



### ASTUDIAETH ACHOS

Grŵp cymorth annibynnol ym Mhentre, Rhondda Cynon Taf, yw Cyn-filwyr y Cymoedd (Valleys Veterans). Caiff y grŵp ei redeg gan un o gyn-filwyr y Gwarchodlu Cymreig a'r Falklands.

Bob wythnos, mae 20-40 o gyn-filwyr yn mynychu'r grŵp i fwynhau brecwast, raffl a sgwrsio. Mae darparwyr fel Veterans UK a'r Lleng Brydeinig Frenhinol yn darparu cyngor a chymorth pan fydd angen i gyn-filwyr sy'n mynychu.

## Prosiect Cyn-filwyr Dinas Caerdydd

Mae cyllid grant gan y Lleng Brydeinig Frenhinol wedi caniatau i Sefydliad Pel-droed Dinas Caerdydd creu Prosiect Cyn-filwyr, sydd wedi ei gynllunio i ddefnyddio pŵer Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd i ymgysylltu ag aelodau sydd wedi ymddeol, a chyn-bersonél y Lluoedd Arfog sy'n teimlo eu bod ar wahân yn gymdeithasol, neu'r rheiny sydd mewn perygl o fod yn unig yng Nghaerdydd a'r fro.

Eu nod yw helpu cyn-filwyr i ail-greu hen gysylltiadau, datblygu perthnasoedd newydd a'u helpu i fod yn fwy gweithgar yn feddyliol ac yn gorfforol.

Mae eu prosiect yn ceisio canolbwyntio ar y materion allweddol hyn a darparu strwythur a chymorth sy'n galluogi cyn-filwyr i ddod at ei gilydd a chymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau newydd wedi eu harwain gan eu diddordebau sy'n targedu gweithgarwch corfforol a meddyliol.

## Newid Cam

Yn 2019, rhoddodd Llywodraeth Cymru £40,000 i CAIS i'w galluogi i barhau i ddarparu Gwasanaeth Mentora Cymheiriaid Newid Cam, a ddarperir gan gyn-filwyr ar gyfer cyn-filwyr.

Trwy weithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o sefydliadau cymorth, mae Newid Cam yn darparu gwasanaethau dynodedig ar gyfer y rheiny mewn argyfwng, cyn-filwyr hŷn, a phobl ag anghenion iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.

## Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog

Mae penodi Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog ar draws y rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol yng Nghymru, gyda chefnogaeth gan Gronfa Ymddiriedolaeth Cyfamod y Lluoedd Arfog, wedi galluogi mwy o gydlynu cymorth yn lleol ar gyfer cymuned y Lluoedd Arfog. Roedd disgwyl i gyllid ddod i ben yn 2019 gyda Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi'r rolau hyn am ddwy flynedd arall gyda phecyn cyllid o £500,000. Bydd hyn yn golygu y gellir ymgorffori gwasanaethau a chymorth ar gyfer cymuned cyn-filwyr y Lluoedd Arfog mewn cymorth prif ffrwd gan Awdurdodau Lleol yn y dyfodol.

## Cyfiawnder Troseddol

Nid yw Llywodraeth Cymru yn credu y dylid anwybyddu am gyn-bersonél y Lluoedd Arfog o fewn y System Cyfiawnder Troseddol na'u hatal rhag derbyn cymorth gan eu bod wedi 'mynd ar y llwybr anghywir'. Datblygwyd 'Fframwaith i gefnogi newid positif ar gyfer y rheiny sydd mewn risg o droseddu yng Nghymru' (2018-2023) ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi ar ran Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan. Diben y fframwaith yw gwella gwasanaethau ar gyfer y rheiny sydd mewn perygl o fynd i mewn i'r System Cyfiawnder Troseddol, neu sydd eisoes yn rhan ohoni. Un maes blaenoriaeth yw gwella'r ddarpariaeth ar gyfer cyn-bersonél y Lluoedd Arfog.

Enghraifft allweddol o weithio mewn partneriaeth yw prosiect Cefnogi cyn-aelodau'r Lluoedd Arfod i Groesi'r Bont (SToMP).

Mae'n ymagwedd system gyfan at gefnogi cyn-bersonél y Lluoedd Arfog sy'n dod i gysylltiad â'r System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru.

Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae SToMP wedi rhoi ei system gyfan ar gyfer cyn-bersonél y Lluoedd Arfog ar waith ym mhum carchar Cymru. Bu tîm StoMP yn gweithio'n agos â'r holl garchardai yng Nghymru i ystyried eu prosesau presennol ar gyfer nodi, cefnogi a chyfeirio cyn-bersonél y Lluoedd Arfog, ac i ddatblygu dull gweithio cyson, ar y cyd.

Mae'r llwybr yn cynnwys camau nodi, cofnodi a chyfeirio, gan ystyried trosglwyddo cyn-bersonél y Lluoedd Arfog i unedau dynodedig ar gyfer cyn-bersonél y Lluoedd Arfog yn CEM Parc a CEM Berwyn, pan fo'n briodol.

Hefyd, caiff Pwyllgorau Gofal am Gyn-filwyr eu hannog i ddod â phartneriaid allweddol at ei gilydd, o fewn y sefydliad a'r tu allan, i sicrhau ymrwymiad parhaus i'r Llwybr. Mae'r Llwybr hefyd yn annog lleoli Swyddog Cyswllt Cyn-filwyr ym mhob carchar (rôl a argymhellir gan Adolygiad Phillips)[3] ac yn argymell y dylai'r Swyddog fynychu cyfarfodydd chwarterol y Cyfamod.

Mae SToMP hefyd wedi cydlynu cyfres o ddiwrnodau cymunedol carchardai ar draws y pum carchar yng Nghymru, ac ariennir hyn gan Grant Cyfamod y Lluoedd Arfog.

Roedd gweithgareddau'n cynnwys cwrs rhwystrau, gêm bêl-droed wrth gerdded rhwng Endeavour a Newid Cam, diwrnod i deuluoedd cyn-filwyr, her CEM Rye Hill a digwyddiadau cyflogaeth.

## ASTUDIAETH ACHOS

Agorwyd Uned Endeavour yn CEM Parc yn Ne Cymru yn 2015, i letya cyn-bersonél y Lluoedd Arfog gyda charcharorion a oedd wedi cael eu dedfrydu i garchar am y tro cyntaf. Mae'r uned yn darparu ffocws ar gyfer gwasanaethau cymorth arbenigol i gyn-filwyr sy'n gweithio y tu allan i'r carchar i helpu adsefydlu carcharorion yn ystod eu dedfryd ac ar ôl eu rhyddhau.

Caiff gwasanaethau mentora cymheiriaid ar gyfer cyn-bersonél y Lluoedd Arfog eu cyflwyno gan Newid Cam gyda chymorth gan cyfundrefnau fel Hire a Hero.

Trwy fabwysiadu model tebyg, agorwyd CEM Berwyn (carchar hyfforddi categori C ar gyfer oedolion a dynion ifanc wedi eu dedfrydu) ym mis Chwefror 2017 yn Wrecsam, Gogledd Cymru. Mae'r carchar, sy'n cynnwys adain i gyn-filwyr, yn canolbwyntio'n gryf ar adsefydlu, oherwydd dros gyfnod, caiff y carcharorion sy'n gyn-filwyr eu symud allan o'r adain i gyn-filwyr i'w cynorthwyo i drosglwyddo i fywyd bob dydd.

4. Adolygiad Phillips: Bwriad yr adolygiad oedd nodi'r rhesymau pam mae cyn-bersonél y Lluoedd Arfog yn mynd i mewn i'r System Gyfiawnder, edrych ar y cymorth a ddarperir iddynt, ac ystyried sut gellid gwella'r cymorth hwnnw.

## Cronfa Ymddiriedolaeth Cyfamod y Lluoedd Arfog

Yn ystod ei tair blynedd gyntaf, mae Cronfa'r Cyfamod wedi darparu cymorth i gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru, trwy ddarparu prosiectau uchelgeisiol ar raddfa fawr sy'n newid y ffordd y maent yn mynd ati i ddarparu gwasanaethau i grantiau bach sy'n annog cymunedau i ddod at ei gilydd. Mae'r diagram isod yn dangos sut mae Cymru wedi elwa ar gyllid y Cyfamod.

CYFLAWNIADAU

# GRANTIAU CRONFA YMDDIRIEDOLAETH CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG YNG NGHYMRU:

# Y 3 BLYNEDD GYNTAF

### Beth mae Cronfa Ymddiriedolaeth Cyfamod y Lluoedd Arfog yn ei wneud.

Mae'n creu grantiau i gefnogi Cymuned y Lluoedd Arfog, mewn **PEDWAR** categori eang:

1. Cael gwared ar rwystrau rhag bywyd teuluol
2. Cymorth ychwanegol ar ôl bod yn y Lluoedd Arfog i'r rheiny sydd angen cymorth
3. Camau i integreiddio cymunedau milwrol a sifilaidd a galluogi cymuned y Lluoedd Arfog i gymryd rhan fel dinasyddion
4. Gwasanaethau gofal iechyd di-graidd ar gyfer cyn-filwyr

## £2.2M

### Grantiau Lleol Cyfamod y Lluoedd Arfog

**£570K**

30 o grantiau yng Nghymru yn ystod tair blynedd gyntaf Cronfa'r Cyfamod, ariannu prosiectau sy'n cefnogi prosiectau lleol sydd eu hangen ar gymuned y Lluoedd Arfog, neu sy'n dod â chymunedau'r Lluoedd Arfog a sifiliaid at ei gilydd.

### Ymadawyr blaenorol y Lluoedd Arfog yn y System Cyfiawnder Troseddol

**£824K**

Grantiau i Awdurdodau Lleol ar gyfer prosiectau i gefnogi anghenion a nodwyd trwy eu partneriaethau lleol o ran y Cyfamod.

### Cryfhau darpariaeth y Cyfamod yn lleol

**£810K**

Cefnogaeth ar gyfer dau brosiect sy'n gweithio i helpu cyn-bersonél y Lluoedd Arfog sydd bellach yn y System Cyfiawnder Troseddol.

### GRANTIAU LEDLED Y DU

### Cefnogi Cymunedau yng Nghymru

Mae ein grantiau ledled y DU yn cynnwys **£2M** i filiwn i greu'r Porth Cyn-filwyr, ac mae rhan o hyn wedi'i lleoli yn Ne Cymru.

Rydym hefyd wedi gwario **£2M** trwy'r rhaglen effaith, sydd wedi cefnogi'r Map Angen, sy'n dangos mwy o fanylion am anghenion cymunedau'r Lluoedd Arfog mewn gwahanol ardaloedd daearyddol.

Rhagor o wybodaeth ar Cyfamod y Lluoedd Arfog
**www.covenantfund.org.uk**



# Cyflogaeth a Sgiliau

**Mae mwyafrif y bobl sy'n gadael y Lluoedd Arfog yn integreiddio'n ôl i fywyd cymunedol yn effeithiol. Fodd bynnag, mae rhai ohonynt, am amrywiaeth o resymau, yn ei chael yn anodd trosglwyddo ac ni allant ddod o hyd i swydd.**

Nodwyd bod cael swydd ystyrlon sy'n cydnabod y sgiliau y mae personél y Lluoedd Arfog wedi eu hennill yn ystod eu cyfnod yn y Lluoedd Arfog yn ffactor allweddol wrth helpu'r rheiny sy'n gadael y Lluoedd Arfog, cyn-filwyr a'u teuluoedd i integreiddio'n ôl i fywyd bob dydd a chyfrannu at y cymunedau y maent yn ymgartrefu ynddynt.

Mae Llywodraeth Cymru, ar y cyd ag aelodau o Grŵp Arbenigol y Lluoedd Arfog, wedi datblygu Llwybr Cyflogaeth.

## Llwybr Cyflogaeth

Mae'r Llwybr yn amlinellu'r opsiynau a'r gwasanaethau cyflogaeth sydd ar gael i gynnig cymorth. Ei nod yw lleihau'r her sy'n wynebu personél y Lluoedd Arfog wrth ddod o hyd i swydd yn ystod cyfnod trosglwyddo.

## Pecyn Cymorth Cyflogwyr

Mewn partneriaeth â Busnes yn y Gymuned Cymru, datblygodd Llywodraeth Cymru Becyn Cymorth Cyflogwyr, i ychwanegu at y Llwybr Cyflogaeth. Mae'r pecyn cymorth yn darparu arweiniad clir i gyflogwyr ar fuddion ychwanegol cyflogi cyn-bersonél y Lluoedd Arfog, a bydd yn helpu llywio prosesau recriwtio sy'n hygyrch i gyn-filwyr, yn sicrhau bod recriwtwyr a rheolwyr yn deall sut i ddehongli profiad milwrol a darparu profiad gweithle ymarferol, gan gynnig sgiliau a hyfforddiant trosi.

## Busnes Cymru

Busnes Cymru yw gwasanaeth cymorth busnes dwyieithog Llywodraeth Cymru sy'n darparu cymorth a chyngor diduedd ac annibynnol i bobl sy'n dechrau, yn rhedeg ac yn tyfu busnes yng Nghymru.

Mae'n cynnig man cyswllt unigol i fusnesau ac entrepreneuriaid i gael cyngor a chymorth gan sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

**Mae Neil, cyn-filwr â'r Môr-filwyr Brenhinol, a hyfforddwr personol o Aberystwyth, bellach yn gweithio yn Rhondda Cynon Taf:**

> Roedd Busnes Cymru yn eithriadol o fuddiol wrth fy helpu â'm syniad busnes. Cefais 3 chyfarfod ag aelod o'r tîm a oedd yn hynod broffesiynol a brwdfrydig.
>
> Gwrandawodd Busnes Cymru ar fy syniadau, a gweithredu yn unol â hynny, ar sail fy nghynlluniau. Gyda'n gilydd, fe wnes i a Busnes Cymru osod targedau i'w cyflawni, ac roedden nhw bob amser wrth law trwy'r e-bost neu dros y ffôn, os oedd angen unrhyw gymorth arna' i.
>
> Rhoeson nhw dempled gynllun busnes i mi hefyd, a oedd yn hawdd iawn i'w ddilyn.
>
> Byddwn i ddim yn gwneud y camau graddol rwy'n eu gwneud heddiw pe na bawn wedi cysylltu â Busnes Cymru.

## Rhaglenni Cyflogadwyedd yn y Gymuned

Mae Rhaglen Cyflogadwyedd yn y Gymuned Llywodraeth Cymru yn darparu mentora a chymorth dwys i ymgysylltu a mynd i'r afael â'r rhwystrau cymhleth rhag cyflogaeth ar draws pob grŵp, gan gynnwys cyn-bersonél y Lluoedd Arfog yn sicrhau cyfleoedd i bawb.



## Cymunedau am Waith a Chymunedau am Waith a Mwy

Trwy weithio mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), mae'r rhaglen Cymunedau am Waith yn wasanaeth ychwanegol a ariennir gan Lywodraeth Cymru, ac yn cynnwys cymorth ar gyfer cyn-filwyr a'u teuluoedd.

## Rhaglen Sgiliau Cyflogadwyedd

Nod rhaglen Sgiliau Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru yw cynorthwyo oedolion sy'n ddi-waith i gael swydd ac aros mewn gwaith trwy wella eu sgiliau cyflogadwyedd.

Mae'r Rhaglen yn cynnig lleoliad gwaith o ansawdd da neu hyfforddiant yn benodol i gyflogwr sy'n cael ei gyfuno â hyfforddiant paratoi ar gyfer gwaith, a darpariaeth sgiliau hanfodol, os bydd angen.

Mae'r Rhaglen wedi'i hanelu at oedolion di-waith sydd â chyfle rhesymol o fod yn barod ar gyfer cyflogaeth o fewn chwe mis, gan gynnwys cyn-bersonél y Lluoedd Arfog.

## Cymru'n Gweithio

Ar 1ain Mai 2019, lansiwyd Llywodraeth Cymru Cymru Gweithio. Yn seiliedig ar amgylchiadau personol unigolion a dyheadau, bydd cynghorwyr hyfforddedig yn nodi y cymorth mwyaf addas ar gyfer y person hwnnw.

Mewn cytundeb â'r unigolyn, bydd cynghorwyr wedyn yn cyfeirio unigolion at y cymorth mwyaf priodol. Gallai hyn fod yn cyngor yrfaoedd ac arweiniad, cyflogaeth bresennol darpariaeth rhaglen sgiliau, Cymunedau ar Gyfer Gwaith neu ymyriadau eraill. O ddechrau 2020 Gwaith Cymru fydd y man cychwyn sengl ar gyfer atgyfeiriadau i Cymorth Swydd Cymru.

## Cymorth Swydd Cymru

Mae Cymorth Swyddi Cymru ar fin dechrau cynnar yn 2020. Bydd y rhaglen yn chyfnerthu gyfres gyfredol y Llywodraeth Cymru o gymorth cyflogaeth i ddarparu dull cydgysylltiedig o cyflogadwyedd a chymorth sgiliau, wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion unigolion.

Bydd y rhaglen yn cefnogi pobl o bob oed, gan gynnwys cyn-filwyr i oresgyn unrhyw rhwystrau a all fod ganddynt, er mwyn cyflawni a chynnal ansawdd da o gyflogaeth cynaliadwy.



# Coffáu

**Mae Llywodraeth Cymru yn falch o'n cenedl Gymreig fywiog sydd â'i hiaith, ei threftadaeth a'i hunaniaeth ddiwylliannol ei hun.**

Mae gan Gymru hanes balch o draddodiad milwrol hefyd, ac rydym yn cydnabod gwerth y Lluoedd Arfog i'n cymunedau. Ni ddylid eu cymryd yn ganiataol, a dylid anrhydeddu'r aberthau a wnaethant yn ystod cyfnodau o wrthdaro.

I gydnabod eu dewrder, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cefnogaeth lawn i ddigwyddiadau Cofio ledled Cymru, gan gynnwys darparu £20,000 y flwyddyn i gefnogi digwyddiadau blaenllaw diwrnod y Lluoedd Arfog yn y Gogledd a'r De.

## Diwrnod Cenedlaethol y Lluoedd Arfog

Yn 2018, cynhaliodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Ddiwrnod Cenedlaethol y Lluoedd Arfog. Darparodd Llywodraeth Cymru £185,000 i gefnogi'r digwyddiad mawreddog hwn.

Ar y Diwrnod, dathlwyd y Lluoedd Arfog, a rhoddwyd cyfle i'r cyhoedd fynegi eu cefnogaeth a diolch i gymuned ehangach y Lluoedd Arfog.

Bu ychydig dros fil o Bersonél y Lluoedd Arfog, Cadetiaid a Chyn-filwyr yn cymryd rhan yn y parêd ar hyd y promenâd.

Gwyliodd nifer o bobl bwysig y parêd, gan gynnwys Ei Huchelder Brenhinol Y Dywysoges Frenhinol, y Gwir Anrhydeddus Theresa May AS, a Phrif Weinidog Cymru, y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones.

Ymgasglodd dros 100,000 o wylwyr ar hyd y promenâd i gefnogi'r parêd, cyn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau ac arddangosiadau, gan gynnwys ymweliad gan HMS Somerset, arddangosiad brwydr, arddangosiad cŵn gweithio milwrol ac awyrennau'r Red Arrows yn hedfan heibio.

Hefyd, gwelwyd Shenkin IV, sef yr afr o Ben y Gogarth, yn dychwelyd ar gyfer ei barêd swyddogol cyntaf fel masgot yn arwain 3ydd Bataliwn y Cymry Brenhinol.



## Cymru'n Cofio

Cafodd y Rhyfel Byd Cyntaf effaith ddwys ar Gymru. Collwyd bron 40,000 o ddynion gan effeithio ar bron bob cymuned, ac ysgogodd y rhyfel newidiadau mawr mewn cymdeithas, yr economi a gwleidyddiaeth. Cyflymodd y newidiadau yn y degawdau ar ôl hynny.

Cynlluniwyd rhaglen goffa Llywodraeth Cymru, sef Cymru'n Cofio 1914-1918, i feithrin gwell dealltwriaeth o'r rhyfel ymhlith pobl o bob oedran a chefndir.

Mae digwyddiadau wedi cynnwys dadorchuddio cofeb barhaol ym mhentref Langemark i filwyr o Gymru a fu farw yn Fflandrys.

I goffáu Passchendaele, cynhaliwyd Gwasanaeth Coffa Cenedlaethol ar 31 Gorffennaf 2017 ar safle'r Gofeb i'r Cymry yn Fflandrys.

Yn 2018, trodd y sylw yng Nghymru, o ran coffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf, at ganmlwyddiant llofnodi'r Cadoediad ar 11 Tachwedd 1918. Cynhaliwyd gwasanaeth Sul y Cofio ger Cofeb Ryfel Genedlaethol Cymru yng Nghaerdydd. Wedyn, ymunodd Cymru â gweddill y DU a gwledydd pellach i ganu'r clychau i nodi canmlwyddiant diwedd y rhyfel.

Daeth y diwrnod i ben â Gwasanaeth Cenedlaethol o Ddiolchgarwch yng Nghadeirlan Llandaf, a hwnnw'n wasanaeth o fyfyrio a diolchgarwch.

Dyfarnwyd rhagor o gyllid i Cymru'n Cofio 1914-1918 er mwyn gallu parhau â'r rhaglen hyd at 31 Mawrth 2020, ac i gynnwys cyfnod ar gyfer gwerthuso a chreu gwaddol digidol.



## Beth fyddwn ni'n ei wneud – Ymrwymiadau 2019/20

- Parhau i ariannu Gwasanaeth GIG Cymru i Gyn-filwyr i alluogi Cyn-filwyr i gael triniaeth, gan dargedu problemau iechyd meddwl yn benodol. Byddwn hefyd yn buddsoddi mewn creu mentrau cenedlaethol a rhanbarthol i atal hunanladdiadau a hunan-niweidio.
- Parhau i ariannu cynllun teithio ar fysiau am ddim ar gyfer cyn-filwyr wedi eu hanafu.
- Darparu cyllid ar gyfer Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog am 2 flynedd o 2019.
- Ymgynghori â chymuned y Lluoedd Arfog ar statws cyn-filwyr fel rhan o'n hymgynghoriad ar angen blaenoriaethol am dai.
- Parhau i ariannu cynllun nofio am ddim ar gyfer cyn-filwyr a phersonél y Lluoedd Arfog tan 2021.
- Diweddaru'r Cod Arweiniad ar gyfer Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd – gan gynnwys ystyried cymorth ar gyfer gwŷr/gwragedd a phartneriaid sifil sydd wedi ysgaru neu wahanu oddi wrth bersonél y Lluoedd Arfog.
- Sicrhau bod cyn-filwyr, personél y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd yn rhan o waith parhaus i gyflwyno ein strategaeth gyntaf ar unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol.
- Gweithio gyda'r Porth Cyn-filwyr (Veteran's Gateway), Prifysgol Northumbria a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i hysbysebu gwasanaethau lleol, gan gynnwys grwpiau cymorth a hybiau i gyn-filwyr, i alluogi cymuned y Lluoedd Arfog i fanteisio ar gymorth a gwasanaethau i gymheiriaid yn lleol.
- Parhau i ddarparu cymorth i'n Fforymau Lluoedd Arfog ledled Cymru i nodi materion ac arfer da sy'n dod i'r amlwg.
- Parhau i ymgysylltu â Phrifysgol Abertawe i gefnogi ymchwil i gamblo yng nghymuned y Lluoedd Arfog.
- Gweithio gyda Busnes yn y Gymuned Cymru i hyrwyddo manteision cyflogi aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog ac 'Wythnos Ymwybyddiaeth Cyn-filwyr'.
- Gweithio gyda phartneriaid allweddol i gefnogi a hyrwyddo Diwrnod y Lluoedd Wrth Gefn.
- Fel rhan o raglen Cymru'n Cofio, ystyried sut gall cenedlaethau'r dyfodol elwa ar y gwaddol hwn a hanesion.
- Parhau i gefnogi digwyddiadau coffa, gan gynnwys 75 Mlynedd ers D-Day a'r Cymry'n rhyddhau S'Hertogenbosch.
- Llunio adroddiad am y canfyddiadau a'r argymhellion o'n Hymarfer Cwmpasu, a gweithio gyda phartneriaid allweddol i nodi'r ffyrdd o gyflwyno materion a nodwyd.
- Gweithio gyda'r Ffederasiynau Teuluoedd i nodi anghenion cymorth ar gyfer teuluoedd y Lluoedd Arfog sy'n byw yng Nghymru.
- Adnewyddu ein dogfen Croeso i Gymru ar gyfer personél y Lluoedd Arfog.
- Parhau i hyrwyddo a chefnogi recriwtio Lluoedd Wrth Gefn o fewn Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach, fel rhan o gyfathrebu parhaus ar Ddiwrnod y Lluoedd Arfog a phryd bynnag y bo'r cyfle yn codi.
- Parhau i fwrw ymlaen â'r gwaith er mwyn gallu casglu data ar blant aelodau o'r Lluoedd Arfog mewn ysgolion trwy'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion.
- Parhau i adolygu Cod Derbyn Plant Aelodau o'r Lluoedd Arfog i sicrhau nad yw teuluoedd y Lluoedd Arfog dan anfantais trwy ddehongli'r Cod.
- Parhau i adolygu cyflawniad y Llwybr Carlam Trywydd Cyfeirio i sicrhau cyflawniad y gwasanaeth.

# Gair i Gloi (Dirprwy Weinidog)

Hoffwn roi teyrnged i holl aelodau Grŵp Arbenigol y Lluoedd Arfog.

Heb eu cefnogaeth, ni fyddem wedi gwneud y cynnydd rydym wedi'i wneud.

Hoffwn ddiolch, nid yn unig i aelodau o Grŵp Arbenigol y Lluoedd Arfog, ond i'r holl sefydliadau eraill, gan gynnwys Woody's Lodge, Project 360 ac Age Cymru, Busnes yn y Gymuned, Newid Cam, a llawer mwy wrth ddarparu cymorth ar gyfer ein cyn-filwyr a'u teuluoedd.

Bydd yr argymhellion o'r Ymarfer Cwmpasu yn ffurfio'r cyfeiriad yr ydym yn targedu ein gwasanaethau wrth fynd ymlaen, ac rwy'n disgwyl i'r holl sefydliadau ar draws y sector wneud eu rhan yn hyn.



**Hannah Blythyn AC**
Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol